



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyllideb Cymru 2022: Adroddiad y Prif Economegydd

Jonathan Price, Prif Economegydd,
Llywodraeth Cymru

llyw.cymru

Cynnwys

3	Crynodeb
5	Pwrpas a chyd-destun
6	Datblygiadau economaidd diweddar
11	Rhagolygon economaidd tymor byrrach
16	Safonau byw Cymru dros y tymor hwy
25	Heriau a chyfleoedd tymor hwy
37	Rhagolygon cyllidol

Crynodeb

Pwrpas a chyd-destun

- Mae'r adroddiad hwn yn adolygu datblygiadau economaidd diweddar a'r rhagolygon economaidd a chyllidol sy'n wynebu Cymru. Nid yw'n ymwneud â pholisïau Llywodraeth Cymru.
- Mae Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU a dros y tymor byr, mae canlyniadau yng Nghymru yn cael eu sbarduno'n bennaf gan ffactorau sy'n gyffredin i'r DU yn ei chyfanrwydd.

Amodau economaidd ar hyn o bryd a'r rhagolygon dros y tymor byr

- Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod Cymru a'r DU yn wynebu dirwasgiad yn dilyn cyfnod lle mae safonau byw eisoes wedi gostwng mewn pedwar chwarter yn olynol.
- Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn disgwyl i'r dirwasgiad barhau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn nesaf. Mae disgwyl i allbwn neu gynnwrch domestig gros (GDP) leihau dau y cant.
- Ar draws y DU, mae disgwyl i incwm cyfartalog aelwydydd leihau 4.3 y cant yn 2022-23 a 2.8 y cant yn y flwyddyn ganlynol. Byddai'r lleihad cronol o dros 7 y cant dros y ddwy flynedd yn ddigynsail. Byddai'r gostyngiadau hyn yn dwysáu perfformiad incwm eithriadol o wael sy'n dyddio'n ôl i tua adeg yr argyfwng ariannol.

- Mae'r OBR yn disgwyl i gyfradd diweithdra gynyddu tua un pwynt canran a hanner. Yng Nghymru, byddai hynny'n cyfateb i ffigur o tua 20,000 i 25,000 yn rhagor o bobl ddi-waith.
- Mae disgwyl i chwyddiant, fel y'i mesurir gan y mynegai prisiau defnyddwyr, aros uwchben 10 y cant yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn nesaf. Erbyn diwedd 2023, dylai'r cynnydd mewn prisiau fod wedi disgyn i tua 4.0 y cant a bod yn is na sero flwyddyn yn ddiweddarach, a bydd lefel prisiau yn parhau i ostwng tan ganol 2026.
- Mae economi'r DU yn wynebu dirwasgiad mewn sefyllfa wannach nag unrhyw economi arall ymysg y G7, gan fod pob un arall wedi adfer i'w lefelau cyn y pandemig o ran incwm a chyflogaeth genedlaethol.
- Un o'r prif ffactorau sy'n dal economi'r DU yn ôl yw nifer cynyddol y bobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar.
- O ganlyniad i'r lefelau incwm is yng Nghymru, amler tlodi sy'n uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU, a thai sy'n llai ynni-ffeithlon ar gyfartaledd, mae'r dirwasgiad disgwyliedig a'r lleihad mewn incwm real yn debygol o effeithio'n drwm ar bobl yng Nghymru.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch y rhagolygon economaidd. Mae Banc Lloegr yn rhag-weld dirwasgiad dyfnach a chynnydd uwch mewn diweithdra na'r OBR. Ar y llaw arall, pe bai'r rhyfel yn Wcráin yn dod i ben yn gyflymach na'r disgwyl, gallai amodau economaidd wella'n gyflym.

Heriau a chyfleoedd economaidd dros y tymor hwy

- Nid yw'r heriau a'r cyfleoedd economaidd dros y tymor hwy yng Nghymru wedi newid rhyw lawer, ond maen nhw wedi cael eu dwysáu gan yr argyfwng costau byw a'r pandemig.
- Un o'r prif heriau hirdymor o hyd yw cynhyrchiant isel, sef sbardun hirdymor allweddol cynnydd cynaliadwy mewn cyflog, ffyniant a'r sylfaen drethu.
- Mae heriau'n dal yn bodoli yn y farchnad lafur hefyd: mae cyfleoedd cyflogaeth yn gyfyngedig i lawer o grwpiau sydd dan anfantais, yn enwedig pobl anabl, y rhai â chyflyrau iechyd hirdymor, a phobl â lefelau sgiliau isel.
- Pryder parhaus yw y bydd effeithiau'r tarfu ar addysg plant a phobl ifanc o ganlyniad i'r pandemig yn cael effaith barhaol ar y rhagolygon ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Mae swyddi newydd wedi cael eu dosbarthu'n anghyson ar draws Cymru.
- Mae'r cynnydd cyflym mewn gweithio o bell yn her ac yn gyfle newydd.
- Mae poblogaeth Cymru wedi bod yn tyfu'n arafach na phob un o ranbarthau Lloegr. Mae nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau dros y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad yn bennaf i gyfradd ffrwythlondeb isel, ond mewn mewnffudo wedi atal y boblogaeth gyffredinol rhag dirywio.
- Mae'r newid mewn poblogaeth yn amrywio dros Gymru, gyda nifer o ardaloedd awdurdod lleol yn gweld gostyngiad mewn poblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae newidiadau mewn demograffeg yn creu nifer o heriau a rhai cyfleoedd.

Rhagolygon cyllidol

- Yn dilyn Datganiad yr Hydref, mae disgwyl i dreth fel cyfran o GDP y DU godi i'w lefel uchaf ers 1947. Mae toriadau mawr i wariant mewn termau real wedi cael eu "cynllunio" ar gyfer cyfnod nesaf yr adolygiad o wariant, a fydd yn dilyn etholiad Cyffredinol y DU fwy na thebyg.
- Mae'r OBR wedi cadarnhau unwaith eto bod cyllid cyhoeddus y DU ar drywydd anghynaliadwy dros y tymor hir. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio a ffactorau eraill yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.
- Mae'r sioc chwyddiant diweddar, hyd yn oed o ystyried yr ychwanegiadau yn Natganiad yr Hydref, yn golygu bod setliad Llywodraeth Cymru dros dair blynedd cyfnod presennol yr adolygiad o wariant yn dal yn werth hyd at £3bn yn llai mewn termau real nag oedd wedi'i ddisgwyl y llynedd.
- Mae twf isel dros weddill cyfnod yr adolygiad o wariant, ynghyd â thymbiaethau o ran gwariant cyhoeddus cyfyngedig, yn awgrymu y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd fesul person dros y pum mlynedd nesaf yn cynyddu llai na 0.5 y cant y flwyddyn mewn termau real.
- Mae Cymru'n wynebu pwysau tebyg i Loegr o ran demograffeg dros y blynyddoedd nesaf. O ran a fydd adnoddau ar gael i gwrdd â'r pwysau hwnnw yng Nghymru, bydd hynny'n dibynnu'n helaeth ar Lywodraeth y DU yn eu hariannu'n briodol yn Lloegr.
- Mae disgwyl i'r trethi datganoledig barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae'r bwlch mawr rhwng cyfanswm refeniw a gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn golygu trosglwyddiad mawr i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU.
- Y trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwlch rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru, ac mae'n risg allweddol i safonau byw yng Nghymru.

Pwrpas a chyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu tueddiadau economaidd ac yn asesu'r rhagolygon economaidd a chyllidol. Nid yw'n cyflwyno polisiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys deunydd sy'n berthnasol i ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ymestyn y sail dystiolaeth ar ragolygon cyllidol Cymru ac i adolygu'r opsiynau ar gyfer datblygu sylfaen trethi Cymru. Bydd gwaith dadansoddi pellach yn cael ei gomisiynu mewn cysylltiad â'r ymrwymadau hyn ac i ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Bydd canlyniadau dadansoddiad pellach o'r fath yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiynau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol.

Mae adroddiad eleni wedi cael ei gynhyrchu unwaith eto yn ystod cyfnod o gryn ansicrwydd o ganlyniad i'r twf mewn chwyddiant, tarfu arall o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin, a chanlyniadau byd-eang parhaus pandemig COVID-19 sy'n dal o'n cwmpas.

Cafodd rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU eu cyhoeddi ar 17 Tachwedd.

Er yr ansicrwydd anhepgor, mae rhagolygon yr OBR a chynlluniau cyllidol Llywodraeth y DU yn darparu cyd-destun ar gyfer asesu rhagolygon economaidd a chyllidol Cymru.

Mae nifer o ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu orau dros y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r adroddiad hwn felly'n adolygu heriau a thueddiadau tymor hwy pwysig a oedd yn bodoli cyn yr argyfwng sydd ohoni ac a fydd yn parhau ar ei ôl.

O ganlyniad i'r pandemig, roedd tarfu ar y gwaith o gasglu data ar gyfer arolygon ystadegol ac mewn rhai achosion mae'r ystadegau canlyniadol yn annibynadwy, neu nid ydynt ar gael, neu nid ydynt yn adlewyrchu tueddiadau tymor hwy. Oherwydd hyn, efallai na fydd y data yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyfnodau mwyaf diweddar bob amser.

Datblygiadau economaidd diweddar


Mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU. O ganlyniad, mae datblygiadau ledled y DU – a thu hwnt¹ – yn dylanwadu'n fawr ar berfformiad tymor byr economi Cymru.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anarferol o gythryblus i'r economi. Mae'r cythrwfl hwn wedi adlewyrchu ffactorau aneconomaidd yn bennaf: y refferendwm ar adael yr UE, y pandemig, a'r rhyfel yn Wcráin.

GDP, chwyddiant a safonau byw

Yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, mae'r argyfwng costau byw eisoes wedi cael effaith niweidiol fawr ar safonau byw yng Nghymru. Mae Siart 1 yn dangos tueddiadau diweddar GDP y DU (hyd at drydydd chwarter 2022) ac incwm real cyfartallog y pen yn y DU (hyd at ail chwarter 2022). Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru wedi'i ddangos hefyd, ond nid yw mor amserol.

Siart 1: Newid yng nghyfanswm y GDP ac incwm gwario y pen, termau real (2015 Ch1=100)



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Noder: Mae'r data GDP ar gyfer Cymru yn arbrofol. Mae'r incwm gwario real y pen yng Nghymru yn ddata blynyddol bras.

¹ Mae'r berthynas agos hon wedi'i chadarnhau gan nifer o siartiau yn yr adroddiad hwn ac mae'r OBR wedi cydnabod, yn y blynyddoedd diwethaf, na ellir gwahaniaethu rhwng tueddiad tymor byr i ganolig GDP yng Nghymru ag un y DU, pan gaiff ei fynegi ar sail "y pen" – ond mae rhywfaint o amrywiadau ar hap.

Erbyn ail chwarter 2022, roedd GDP y DU wedi adfer yn rhannol o'r pandemig, gan ddychwelyd i lefel 2019 bron, cyn crebachu yn y trydydd chwarter. Fodd bynnag, pe bai wedi dychwelyd i lefel 2019, byddai hynny'n dal wedi golygu tair blynedd o dwf wedi'i golli.

Erbyn hyn, economi'r DU yw'r unig un ymysg y G7 i beidio â rhagori ar lefelau cyn COVID o ran GDP a chyflogaeth.

Mae'r data arbrofol, llai amserol ar gyfer GDP Cymru a'r data ar gyfer incwm gwario yng Nghymru yn dangos bod Cymru, o bosibl, wedi adfer o berfeddion y pandemig yn gyflymach na'r DU yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag mae'r data hwn yn ddi-ddal ac mae angen eu hadolygu.

Mae'r cynnydd sydyn mewn chwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf wedi erydu safonau byw i'r fath raddau bod incwm cyfartalog ar draws y DU,


erbyn ail chwarter 2022, wedi lleihau am bedwar chwarter yn olynol. Mae'r cydberthynas agos rhwng mesurau incwm Cymru a'r DU yn dangos y bydd yr un peth bron yn sicr wedi digwydd yng Nghymru hefyd.

Bu effaith fwy niweidiol byth ar bobl ar incwm isel na'r cyfartaledd, gan fod prisiau bwyd ac ynni, sy'n gyfrifol am gyfran uchel o'r cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant, yn cynrychioli cyfran anghymesur o'u cyllideb.

Cyflogaeth a'r farchnad lafur

Data'r farchnad lafur yw'r data mwyaf amserol a dibynadwy sydd ar gael ar gyfer Cymru. Tueddiad y gyfradd cyflogaeth, fel y dangosir yn Siart 2, sy'n crynhoi perfformiad cyffredinol y farchnad lafur orau. Mae'r data a ddangosir ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Medi 2022.

Siart 2: Cyfraddau cyflogaeth, Cymru a'r DU



Ffynhonnell: ONS

Hyd yma, mae'r farchnad lafur wedi perfformio'n well na'r disgwyl o bosibl, o ystyried y lleihad mawr mewn GDP dros y blynyddoedd diwethaf. Mae diweithdra'n dal yn isel.

Ond yn llai cadarnhaol, mae chwyddiant wedi mynd ymhellach na chynnydd cyfartalog mewn cyflog, gan arwain at ostyngiadau mewn tâl real, yn enwedig i gyflogaion yn y sector cyhoeddus.

Ar ben hynny, bu cynnydd sylweddol mewn anweithgarwch economaidd. Mae hyn wedi'i adlewyrchu'n rhannol mewn cynnydd yn nifer yr achosion o salwch hirdymor, sy'n effeithio ar grwpiau oedran hŷn yn y boblogaeth oedran gweithio yn enwedig. Yn groes i hynny, mae gan economïau cymharol lefelau cyflogaeth uwch a llai o anweithgarwch o'i gymharu â'r sefyllfa cyn y pandemig.

Mae'n ymddangos bod rhagor o bobl yn gadael y farchnad lafur am resymau ar wahân i salwch, ac wedyn yn mynd yn sâl, yn hytrach na'u bod yn gadael y farchnad lafur oherwydd salwch yn bennaf. Fodd bynnag, yn yr arolwg perthnasol, dim ond un rheswm mae pobl yn gallu ei roi ar gyfer anweithgarwch, felly efallai fod gan bobl sy'n gadael y farchnad lafur am reswm arall salwch isorweddol er hynny. Os bydd y salwch hwn yn dod yn fwy difrifol dros amser, gallai fod y prif reswm a roddir am anweithgarwch.

Er bod y cynnydd mewn anweithgarwch yn gallu cael ei briodoli i grwpiau oedran hŷn yn bennaf, mae anweithgarwch oherwydd salwch wedi cynyddu ymysg rhai grwpiau oedran iau hefyd, ac mae hyn yn destun pryder arall.

Mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn anweithgarwch wedi bod yn uwch yng Nghymru na'r DU yn ei chyfarwydd ac mae hyn sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau diweddar mewn cyfraddau cyflogaeth a ddangosir yn y siart. Gellid disgwyl cynnydd uwch mewn anweithgarwch yng Nghymru, gan fod poblogaeth Cymru yn hŷn na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer Cymru yn

ddi-ddal ac nid yw'n glir eto i ba raddau mae'r gwahaniaethau'n cynrychioli gwahaniaeth go iawn rhwng Cymru a'r DU.

Er gwaethaf yr arwyddion diweddar hyn o wanhau, mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru yn cymharu'n dda â gweddill y DU yn hanesyddol. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol², mae perfformiad diweddar yn cyferbynnu â'r cyfnod cyn datganoli, pan oedd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru bump i chwe phwynt canran yn is na'r DU fel arfer (gan adlewyrchu lefel uwch o lawer o anweithgarwch economaidd yng Nghymru).

Gan edrych tua'r dyfodol, mae dirywiad yn amodau'r farchnad lafur ar draws y DU ar y gweill, wrth i ddefnyddwyr a busnesau leihau eu gwariant mewn ymateb i'r lleihad mewn incwm real.

Hyd yn oed mewn marchnad lafur sy'n gryf yn gyffredinol, mae grwpiau sydd dan anfantais yn tanberfformio. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl â lefelau sgiliau isel, pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor, merched â phlant ifanc, ac aeloda o rai grwpiau lleiafrifol. Mae pob grŵp o'r fath yn dueddol o ddiodeff yn anghymesur wrth i amodau'r farchnad lafur ddirywio.

Mae rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur yng Nghymru yn cael eu trafod yn fanylach isod.

Masnach ryngwladol Cymru


Mae allforio rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru ac mae mewngludo'n darparu mewnbwn i fusnesau, a nwyddau i ddefnyddwyr, gan gadw prisiau i lawr a chynyddu'r dewis i ddefnyddwyr fel rheol.

Rhwng 2016 a 2020 roedd allforio nwyddau, ar gyfartaledd, yn cynrychioli cyfran uwch o GDP i Gymru nag i unrhyw ran arall o'r DU. Mae hyn yn awgrymu y gallai Cymru fod yn fwy agored i sioc economaidd yn sgil newidiadau i berthynas fasnachu na rhannau eraill o'r DU.

Mae masnach fyd-eang wedi bod yn gyfnewidiol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn fwy byth i'r DU. Gwelwyd newidiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE yn cael ei ddwysáu gan anwadalrwydd yn sgil pandemig COVID-19.

Mae masnach Cymru a'r DU wedi dechrau adfer yn fwy diweddar. Fodd bynnag, mae Cymru a'r DU wedi adfer ar gyfradd arafach nag unrhyw wlad arall yn y G7 (a oedd oll wedi rhagori ar eu lefelau allforio cyn y pandemig erbyn 2021). Gweler Siart 3.

Siart 3: Cymru, yr UE a gwledydd y G7, cyfanswm yr allforion nwyddau (2019=100)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Comtrade y Cenhedloedd Unedig

Er bod adfer lefelau allforion nwyddau yn newyddion da, dylid nodi ei bod hi'n ymddangos bod allforion nwyddau Cymru yn dal yn is o lawer nag y byddent yn debygol o fod heb y digwyddiadau diweddar. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu hyd a lled yr effaith yn union na gwahanu effaith ymadawiad y DU â'r UE oddi wrth effaith y pandemig. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol bod ymadael â'r UE yn chwarae rôl sylweddol.

Mae hefyd yn bwysig ystyried digwyddiadau economaidd byd-eang eraill ac yn benodol y rhyfel yn Wcráin, a sut mae'r rhain yn effeithio ar werth masnach, yn enwedig gan fod pwysau chwyddiant yn codi prisiau cynnyrch. Mae'r broblem hon yn arbennig o berthnasol i'r ddau chwarter diwethaf o ddata, gan fod gwerth allforion petrolewm o Gymru wedi cynyddu'n sydyn a'r niferoedd yn dal yn eithaf cyson.

Mae'r effaith hon ar werth allforion yn creu heriau o ran dehongli perfformiad masnach Cymru gan ei fod yn dangos adferiad ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod pwysau chwyddiant, ac i raddau llai gwrth y bunt, yn debygol o fod yn sbarduno'r adferiad a welir, gan effeithio ar y gwerth yn hytrach na'r niferoedd masnachu. Gallai hyn olygu bod yr adferiad allforion Cymru a ddangosir yn y siart yn cyflwyno darlun gor-obeithiol.

Mae'r UE yn dal yn farchnad bwysig i allforion nwyddau Cymru. Mae'r rhan fwyaf o allforion nwyddau Cymru (58 y cant) yn dal yn mynd yno yn ôl y data diweddaraf³. Fodd bynnag, mae'r pwysigrwydd hwn wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y ffigur yn 61 y cant yn 2019. Er bod pwysigrwydd marchnad yr UE wedi lleihau yng Nghymru, mae'r gwrthwyneb yn wir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd bellach yn allforio cyfran uwch i'r UE nag o'r blaen.

Nid yw'r newid hwn i ffwrdd o farchnad y DU yng Nghymru yn annisgwyl o ystyried y newid mewn telerau masnachu â'r UE ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Gallai'r broses o ailstrwythuro cadwyni cyflenwi ynghyd â'r ffocws cynyddol ar farchnadoedd y tu allan i'r UE, yn enwedig wrth i Lywodraeth y DU sicrhau cytundebau masnach â gwledydd fel Awstralia a Seland Newydd (a llawer mwy yn cael eu trafod), esbonio hyn yn rhannol, ond mae angen rhagor o ddata cyn gellir dod i gasgliad, yn enwedig o ystyried y profiad yn yr Alban.

Rhagolygon economaidd tymor byrrach


Allbwn y DU a'r farchnad lafur

Fel y nodwyd eisoes, mae Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU ac mae rhagolygon economaidd Cymru yn dibynnu'n drwm ar ddisgwyliadau ar gyfer y DU.

Yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn disgwyl i chwyddiant arwain at wasgfa barhaus ar incwm real. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn cyfraddau llog a gostyngiad mewn prisiau

tai oll yn effeithio ar ddefnydd a buddsoddiad. O ganlyniad, mae'r OBR yn disgwyl i'r pwysau hyn wthio'r economi i ddirwasgiad a fydd yn para ychydig dros flwyddyn o drydydd chwarter 2022 ymlaen, lle bydd GDP yn disgyn 2 y cant o'r pwynt uchaf i'r pwynt isaf. Gweler Siart 4.


Siart 4: Alldro GDP real a rhagolwg yr OBR (y DU)



Ffynhonnell: ONS, OBR

Mae'r OBR yn disgwyl i'r gyfradd diweithdra gynyddu i bwynt uchaf o 4.9 y cant yn nhrydydd chwarter 2024, cyn gostwng dros yr un cyfnod hyd 2027. Gweler Siart 5.


Siart 5: Alldro cyfradd diweithdra a rhagolwg yr OBR (y DU)



Ffynhonnell: ONS, OBR

Yn ogystal â'r cynnydd mewn diweithdra, mae'r OBR bellach yn rhag-weld llafurllai nag oedd wedi'i ddisgwyl cyn y pandemig, a chynnydd sylweddol mewn anweithgarwch ymysg grwpiau oedran hŷn. Ym marn yr OBR, mae llawer o'r bobl hyn yn annhebygol o ailymuno â'r farchnad lafur.

Mae'r OBR yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd 11.1 y cant ym mhedwerydd chwarter 2022 – ei lefel uchaf mewn 40 mlynedd. Prisiau bwyd ac ynni yw'r prif ffactorau cyfrannol. Gweler Siart 6.

Siart 6: Alldro chwyddiant a rhagolwg tymor agos yr OBR, gan ddangos ffactorau cyfrannol (y DU)

Ffynhonnell: ONS, OBR

Byddai lefel uchaf chwyddiant yn 2022 wedi bod yn uwch, ar 13.6 y cant, heb y lleihad mewn prisiau cyfleustodau yn sgil y Warant Pris Ynni. Mae disgwyl i gynnydd y Warant o £2,500 i £3,000 ym mis Ebrill 2023 ychwanegu un pwynt canran at chwyddiant chwarterol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn ail chwarter 2023. Ar sail flynyddol, mae disgwyl i chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ostwng o 9.1 y cant yn 2022 i 7.4 y cant yn 2023. Mae wedyn disgwyl i chwyddiant ddisgyn ymhellach, gan ddisgyn o dan sero am wyth chwarter o ganol 2024 ymlaen, cyn adfer tuag at y targed o ddau y cant yn 2027.

Mae disgwyl i incwm aelwydydd ostwng 4.3 y cant yn 2022-23. Dyma fyddai'r gostyngiad mwyaf ers i'r ONS ddechrau cofnodi yn 1956-57. Byddai hynny'n cael ei ddilyn gan yr ail ostyngiad mwyaf erioed, sef 2.8 y cant, yn 2023-24. Hwn fyddai dim ond y trydydd gwaith ers 1956-57 y mae'r incwm y pen wedi gostwng am ddwy flynedd yn olynol – digwyddodd hynny ddiwethaf yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang.

Cyn i'r OBR gyhoeddi ei rhagolygon, roedd Banc Lloegr wedi cyhoeddi ei ragolwg economaidd diweddaraf ei hun, ar 3 Tachwedd. Mae'r Banc yn rhag-weld dirwasgiad mwy difrifol, sy'n para'n hirach, o'i gymharu â'r OBR, yn ogystal ag adferiad arafach.

Ymysg y prif resymau dros y gwahaniaethau rhwng rhagolygon yr OBR a'r Banc yw disgwyliad yr OBR y bydd gwariant defnyddwyr yn aros ar lefel uwch nag y mae'r Banc yn ei disgwyl. Mae hyn yn adlewyrchu barn yr OBR y bydd aelwydydd yn gallu ac yn fodlon defnyddio'r cynilion yr oeddent wedi'u cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae'r OBR yn tybio lefel uwch o fewnfudo na'r Banc ac y bydd cynhyrchiant yn adfer yn gryfach yn dilyn y dirwasgiad.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd rhagolwg yr OBR yn agosach i gyfartaledd rhagolygon annibynnol nag oedd un y Banc.

Mae'r OBR a Banc Lloegr yn seilio eu rhagolygon ar ddisgwyliadau'r farchnad o newidiadau i gyfraddau llog. Mae'r Banc wedi nodi nad


yw'n credu y bydd angen codi cyfraddau llog i'r graddau y mae'r marchnadoedd yn eu disgwyl. Os felly, efallai y bydd y dirwasgiad yn llai difrifol na'r rhagolygon ar hyn o bryd.

Goblygiadau i Gymru

Yn gyffredinol, mae asesiad yr OBR o ragolygon tymor agos ar gyfer y DU hefyd yn berthnasol i Gymru.

Mae Siart 7 yn dangos alldro a rhagolygon safonau byw Cymru a'r DU, fel y'u mesurir gan incwm real cyfartalog (cymedrig) y pen. Dylid ystyried y rhagolwg ar gyfer Cymru yn un enghreifftiol oherwydd mae'n tybio y bydd y berthynas hanesyddol rhwng incwm yng Nghymru a'r DU yn parhau yn y dyfodol.

Siart 7: Incwm cyfartalog y pen, Cymru a'r DU: alldro a rhagolygon Y DU 2019/20=100



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru, OBR
 Noder: Y mesur yw incwm gwario real aelwydydd ar gyfartaledd (cymedrig) y pen.

Yn yr un modd â'r DU yn ei chyfanrwydd, rhagwelir y bydd incwm yn gostwng dros bedwar y cant yn 2022–23. Caiff hynny ei ddilyn gan ostyngiad o bron i dri y cant yn 2023–24. Rhagwelir y bydd incwm yn adfer wedyn, ond na fyddant yn dychwelyd i lefelau 2019–20 tan 2027–28. Mae hyn yn cynrychioli wyth mlynedd o dwf incwm wedi'i golli ac yn dilyn cyfnod hir lle mae incwm real wedi cynyddu dim ond yn araf iawn mewn termau hanesyddol. (Trafodir y tueddiad hirdymor ymhellach isod.)

Mae'r gostyngiad a ragwelir mewn incwm real yn ddigynsail ac yn waeth o lawer nag y gwelwyd yn y blynyddoedd ar ôl yr argyfwng ariannol.

O ganlyniad i'r lefelau incwm is yng Nghymru, amllder tlodi sy'n uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU, a thai sy'n llai ynni-ffeithlon ar gyfartaledd, mae'n ymddangos yn debygol y bydd effaith drom iawn ar bobl yng Nghymru.

Mae pobl yng Nghymru yn fwy dibynnol ar fudd-daliadau na chyfartaledd y DU. Er y bydd budd-daliadau oedran gweithio yn cynyddu yn ôl chwyddiant yn 2023-24 ac y cafodd rhai taliadau ychwanegol eu cyhoeddi yn Natganiad yr Hydref, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi canfod y bydd gwerth real budd-daliadau yn dal yn 6 y cant yn is na'u lefelau cyn y pandemig, sy'n cyfateb i bron i £500 y flwyddyn ar gyfer hawlydd di-waith arferol.

Gallai pwysau ar incwm pobl arwain at lai o wariant, gydag effeithiau niweidiol ychwanegol ar gyflymder yr adferiad ac ar gyflogaeth leol mewn ardaloedd â nifer uchel o bobl ar incwm isel.

Mae'r OBR yn rhag-weld y bydd y gyfradd diweithdra yn cynyddu tua un pwynt canran a hanner. Yng Nghymru, byddai hynny'n cyfateb i ffigur o tua 20,000 i 25,000 o bobl. Os bydd rhagolwg mwy pesimistaidd Banc Lloegr yn wir, gallai'r cynnydd mewn diweithdra fod yn uwch – hyd at tua 40,000 o bobl efallai.

O ystyried y lefelau uwch o fregusrwydd yng Nghymru, gallai'r canlyniad fod yn waeth byth.

Daw'r wasgfa barhaus ar safonau byw ar ben cyfnod maith, sy'n dyddio'n ôl i adeg yr argyfwng ariannol yn 2008, lle mae'r twf mewn safonau byw yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, wedi bod yn eithriadol o araf. Twf gwan iawn mewn cynhyrchiant fu'r ffactor allweddol wrth egluro'r tueddiad tymor hwy, ac fe'i trafodir ymhellach isod.

Safonau byw Cymru dros y tymor hwy

Mae'r adran hon yn adolygu tueddiadau tymor hwy safonau byw yng Nghymru, gan gymharu Cymru â gweddill y DU a thu hwnt.

Cefndir

Gan fod yr adroddiad hwn yn ystyried datblygiadau a rhagolygon yr economi yn bennaf, mae'r ffocws ar safonau byw materol fel y'u mesurir gan incwm aelwydydd. Ond fel y mae'r argyfwng costau byw a'r pandemig wedi'i amlygu, mae agweddau eraill ar lesiant yn hollbwysig ac mae rhai dangosyddion llesiant meddyliol, er enghraifft, wedi dangos dirywiad sylweddol ar wahanol gamau o'r pandemig.

Mae Adroddiad Llesiant Cymru⁴ blynyddol Llywodraeth Cymru yn adolygu tueddiadau diweddar wrth iddynt effeithio'n fwy cyfannol ar lesiant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol⁵ y llynedd yn darparu asesiad wedi'i ddiweddarau o oblygiadau'r tueddiadau hirdymor sy'n wynebu Cymru ar gyfer y nodau a nodir yn y Ddeddf. Felly, nid yw'r safbwynt ehangach hwn wedi'i ddyblygu yn yr adroddiad cyfredol.

Mae gwybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru ar gael o ddwy ffynhonnell. Un yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n darparu canlyniadau allweddol ar gyfer incwm cymedrig a chanolrifol aelwydydd, ac ar gyfer lefelau tlogi.

Yn y gorffennol, mae maint sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru wedi bod yn fach, sy'n golygu bod angen canfod cyfartaledd data dros nifer o flynyddoedd (gan gynhyrchu canlyniadau nad ydynt yn amserol) a bod hyn yn aml yn rhwystro dadansoddiad manwl. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu hwb i'r Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i ddadansoddi newidiadau mewn safonau byw yng Nghymru, ac yn benodol i asesu sut mae newidiadau o'r fath yn effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth, gan gynnwys y rheini sydd â lefelau isel o incwm.

Y ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm yw Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS, sy'n darparu canlyniadau ar gyfer incwm cyfartalog (cymedrig) aelwydydd ond mae'r canlyniadau wedi'u seilio'n rhannol ar ddsraniad data lefel uchel yn y cyfrifon cenedlaethol i ardaloedd lleol. Mae data'r Cyfrifon Rhanbarthol hefyd yn cynnwys rhywfaint o incwm sy'n "amhenodol" yn hytrach na gwirioneddol, yn bwysicaf oll, gwerth y gwasanaethau tai y tybir bod perchnogion preswyl yn eu cael.

Dylid nodi, fel y dangosodd adroddiad 2020⁶, fel arfer mae llawer mwy o amrywiaeth mewn safonau byw o fewn ardaloedd na rhyngddynt, gyda nodweddion unigolion ac aelwydydd yn dylanwadu'n bennaf ar incwm, yn enwedig lefelau cymwysterau a statws iechyd.

4 Llesiant Cymru: 2022 | LLYW.CYMRU

5 Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun cyfunol ar gyfer 2021 [HTML] | LLYW.CYMRU

6 adroddiad-y-prif-economegydd-2020.pdf (llyw.cymru)

Er enghraifft, yng Nghymru, mae lefelau incwm cyfartalog y bobl yn yr un rhan o ddeg o'r boblogaeth â'r incwm uchaf tua chwe gwaith yn uwch na'r un rhan o ddeg o'r boblogaeth â'r incwm isaf. Yn groes i hynny, mae'r incwm cyfartalog yn yr awdurdod lleol yng Nghymru â'r lefel incwm uchaf dim ond tua 50 y cant yn uwch na'r awdurdod lleol â'r lefel incwm isaf.

Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol system dreth a budd-daliadau ehangach y DU o ran lliniaru amrywiadau mewn safonau byw, ac felly at ganlyniadau pwysig dewisiadau polisi a wneir gan Lywodraeth y DU yn y meysydd hyn.

Mae hyd a lled aiddosbarthu o dan system dreth a budd-daliadau'r DU yn effeithio'n uniongyrchol ar incwm pobl, ond mae hefyd effeithiau anuniongyrchol ar lefelau allbwn economaidd lleol o ganlyniad i'r effaith ar wariant defnyddwyr.

Tueddiad incwm cyfartalog

Pan fydd cymhariaeth rhwng Cymru a'r DU ar sail mesurau o incwm cyfartalog pobl, mae'r bwlch yn sylweddol llai na phan fydd cymhariaeth ar sail cynnyrch domestig gros (GDP) neu werth ychwanegol gros (GVA) y pen. Mae'r bwlch yn llai oherwydd y trosglwyddiadau mawr a wneir drwy system gyllidol y DU yn bennaf. Mae hefyd yn llai oherwydd mae'r allgymudo net o Gymru yn golygu bod Cymru yn ennill incwm drwy weithgarwch economaidd sy'n digwydd y tu allan i Gymru.

Gellir mesur incwm cyfartalog gan ddefnyddio'r canolrif neu'r cymedr. Diffinnir incwm canolrifol aelwydydd fel incwm yr aelwyd sydd yng nghanol y dosbarthiad incwm pan fo aelwydydd yn cael eu trefnu yn ôl incwm. Gellir ei ystyried felly fel rhywbeth sy'n adlewyrchu incwm aelwyd "arferol" a chaiff ei ystyried yn eang fel yr un mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol ymysg y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae Siart 8 yn dangos tueddiadau tymor hwy incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru a'r DU mewn termau real, yn cwmpasu'r cyfnod cyn pandemig COVID yn bennaf⁷.


Er yr amrywiadau blynyddol, mae cysylltiad cryf rhwng y tueddiadau ar gyfer Cymru a'r DU, fel y disgwyliad o ystyried eu cyd-destun economaidd ac ariannol sy'n gyffredin i raddau helaeth.

Mae'r data yn y siart yn dangos bod incwm canolrifol yng Nghymru a'r DU wedi cynyddu tua 1.8 y cant y flwyddyn dros y cyfnod cyfan, ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio newid sylweddol mewn tueddiad.

Roedd y twf mewn incwm real wedi arafu'n sylweddol o tua adeg yr argyfwng ariannol yn 2008. O'r pwynt hwn ymlaen, roedd y twf mewn incwm o dan un y cant y flwyddyn ar gyfartaledd. Cyn hyn, roedd cyfradd y twf yn uwch – ymhell dros ddau y cant y flwyddyn dros y degawd blaenorol.

Pe bai incwm wedi parhau i dyfu ar y gyfradd yr oedd yn tyfu cyn yr argyfwng ariannol, byddai incwm real – a safonau byw – bellach tua 30 y cant yn uwch nag ydyn nhw.

7 Effeithiodd y pandemig ar faint a chyfansoddiad y sampl arolwg sylfaenol yn 2020-21, felly mae'r DWP yn argymhell bod defnyddwyr yn ymarfer pwyll ychwanegol wrth ddehongli newidiadau a welwyd yn y cyfnod hwn.

Siart 8: Incwm canolrifol aelwyd (£ yr wythnos, prisiau 2019/20)

Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau Teulu

*GB ar gyfer y blynyddoedd cyn 2002/03

Nodiadau: Cyfrifir cyfwerthedd data i sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu cyfansoddiad aelwydydd tebyg ac yn cael eu dangos ar ôl costau tai.

Mae'r cyfnod hir o dwf araf mewn incwm a safonau byw ers yr ar ariannol yn un na welwyd ei debyg o'r blaen yn y cyfnod modern, ac i raddau helaeth mae'n adlewyrchu twf araf mewn cynhyrchiant, sef prif sbardun safonau byw yn y pen draw⁸.

Er bod Siart 8 yn dangos bod tueddiadau incwm canolrifol yn eithaf tebyg yng Nghymru a'r DU, mae Cymru wedi cydgyfeirio rywfaint â'r DU ers canol yr 1990au. Dros y cyfnod diweddaraf, roedd incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru ychydig o dan bum y cant yn is na'r DU yn ei chyfarwydd, ac roedd y ffigur yng Nghymru


yn uwch nag yr oedd mewn nifer o ranbarthau yn Lloegr⁹. Yng nghanol yr 1990au, tua saith y cant oedd y bwlch.

Mae'r ffynhonnell wybodaeth arall am incwm aelwydydd yng Nghymru, Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS, yn dangos bwlch mwy rhwng incwm yng Nghymru a'r DU. Y mesur o incwm a ddefnyddir yw Incwm Gros Aelwydydd Domestig (GDHI). Mae'n fesur o incwm cymedrig, yn hytrach na chanolrifol.

Mae Siart 9 yn dangos GDHI y pen yng Nghymru a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU, o'u cymharu â'r DU.

8 Mae gwendid sylfaenol twf cynhyrchiant dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei guddio braidd yn y siart gan fod y twf mewn incwm wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan adferiad mewn cyfraddau cyflogaeth, rhywbeth sy'n amlwg â photensial cyfyngedig yn unig.

9 Er bod y ffigur hwn yn addasu ar gyfer gwahaniaethau mewn costau tai, nid yw'n ystyried gwahaniaethau eraill mewn costau byw. Mae dadansoddiad blaenorol gan yr ONS yn awgrymu petai gwahaniaethau o'r fath yn cael eu hystyried, y gallai leihau'r bwlch hyd at tua 2 bwynt canran.

Siart 9: Incwm Gros Aelwydydd Domestig, y DU=100

Ffynhonnell: ONS

Yn ystod y cyfnod diweddaraf sydd ar gael, 2020, roedd GDHI y pen yng Nghymru y trydydd isaf ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, ond ychydig yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd GDHI y pen yng Nghymru yn 82.1 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU – neu mewn geiriau eraill, 17.9 y cant yn is na ffigur y DU.

Mae'r bwlch mwy o lawer rhwng Cymru a'r DU pan fo'r gymhariaeth yn seiliedig ar fesur incwm cymedrig yn hytrach na chanolrifol yn adlewyrchu'n rhannol y gyfran gymharol fach o'r boblogaeth yng Nghymru sydd ar incwm uchel. Wrth gwrs mae'r gyfran fach wedi'i hadlewyrchu yng nghyfrifiad yr incwm cymedrig, ond nid yr incwm canolrifol.

Mae'r data yn Siart 9 yn dangos, yn wahanol i'r mesur o incwm canolrifol aelwydydd, bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran GDHI wedi ehangu dros y cyfnod hwy¹⁰. Mae'r data sylfaenol (heb ei ddangos) hefyd yn dangos bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU, ac eithrio Llundain, wedi ehangu, ond i raddau llai, felly dim ond rhan o'r esboniad am yr ehangu cyffredinol y gall twf cymharol gryfach mewn incwm yn Llundain fod.

Mae archwilio'r data sylfaenol yn dangos ei bod hi'n ymddangos bod dau ffactor wedi bod yn

bwysig o ran egluro'r gwahaniaeth mewn tueddiadau rhwng incwm canolrifol cymharol aelwydydd Cymru a GDHI cymharol Cymru. Y cyntaf yw dosbarthiad twf cyflog, le mae twf cyflymach mewn cyflog i'r rhai sydd eisoes ar gyflog uchel mewn rhannau eraill o'r DU. Yr ail yw twf arafach mewn incwm rhent yng Nghymru. Mae'r ddau ffactor hyn wedi'u hadlewyrchu yn GDHI ond nid mewn incwm canolrifol. Cafodd y mater ei archwilio'n fanylach yn adroddiad y llynedd.

Safonau byw Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol

Mae'n bosibl cymharu safonau byw Cymru, fel yr adlewyrchir mewn incwm aelwydydd, â gwledydd a rhanbarthau eraill o faint tebyg. Mae Tabl 1 yn dangos data gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan ddangos incwm aelwydydd "cyfwerthedig" ar gydraddoldeb pŵer prynu¹¹. Mae'r tabl yn dangos Cymru a'r rhanbarthau a nodwyd fel ei chymheiriaid agosaf pan fydd rhanbarthau'n cael eu trefnu yn ôl lefelau incwm¹².

10 Mae mesur o incwm cymedrig hefyd ar gael gan yr Arolwg o Adnoddau Teulu, ochr yn ochr â'r mesur o incwm canolrifol. Mae'r bwlch gyda'r DU a ddangosir ar y mesur hwn yn eithaf cyfnewidiol, ond heb fawr o arwydd o unrhyw dueddiad bod y bwlch yn cau.

11 Mae cyfrif cyfwertheddig yn addasu'r data i sicrhau y gellir ei gymharu ar draws aelwydydd o wahanol faint ac mae cymharu ar gydraddoldeb pŵer prynu yn ystyried y gwahaniaethau mewn costau byw.

12 Data 2019 yw'r data a ddangosir, cyn effaith y pandemig, sydd wedi cymhlethu cymhariaethau mwy diweddar.

Tabl 1: Incwm aelwydydd y pen (\$), 2019

Yr Iseldiroedd: Gronigen	22,488
Sbaen: La Rioja	22,477
Ffrainc: Corsica	22,458
Sbaen: Asturias	22,302
Sweden: Canol-ddwyrain	22,277
Sbaen: Ynysoedd Balearic	22,197
Sweden: Norrland Uchaf	22,175
DU: Gogledd Iwerddon	22,073
Denmarc: Zealand	22,065
Ffrainc: Hauts-de-France	22,030
Cymru	22,002
Y Ffindir: Gorllewin y Ffindir	21,966
Sweden: Småland ac yr Ynysoedd	21,939
Sweden: Norrland canolig	21,863
Y Ffindir: Gorllewin a Gogledd	21,861
Gogledd-ddwyrain Lloegr	21,781
Sweden: Canol Ogledd	21,780
Sbaen: Castile a León	21,729
Denmarc: Jutland canolig	21,691
Sbaen: Cantabria	21,684
Denmarc: Gogledd Jutland	21,427
Iwerddon	21,409

Ffynhonnell: OECD.

Mae'r data'n dangos bod safonau byw cyfartalog Cymru yn debyg i rai nifer o ranbarthau eraill yng ngorllewin Ewrop, ac yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

Efallai fod hynny'n annisgwyl, o ystyried perfformiad cryf Iwerddon mewn dangosyddion seiliedig ar GDP. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod dangosyddion o'r fath yn arbennig o


gamarweiniol yn achos Iwerddon, yn rhannol oherwydd eu bod yn adlewyrchu elw a gofnodir yn Iwerddon yn hytrach nag incwm trigolion Iwerddon.

Nid yw incwm gwario yn ystyried gwasanaethau'r llywodraeth a ddarperir mewn ffyrdd eraill, fel gwasanaethau iechyd yn y DU. Mae Eurostat a'r OECD yn argymhell y dylid gwneud

cymariaethau rhyngwladol ar sail Defnydd Unigol Gwirioneddol (AIC), sydd ddim yn ystyried gwasanaethau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw AIC ar gael i Gymru nac ar lefel ranbarthol i wledydd eraill. Mae canlyniadau ar lefel gwladwriaeth yn dangos bod y DU yn dueddol o berfformio'n well pan gaiff ei gymharu yn ôl AIC nac incwm gwario, ac felly mae bron yn sicr y byddai'r un peth yn wir i Gymru¹³.

Er bod twf araf mewn incwm wedi'i weld ar draws gwledydd datblygedig ers yr argyfwng ariannol, mae'r DU (ac felly Cymru hefyd) wedi gwneud yn waeth na nifer o wledydd cymharol. Mae Siart 10 yn dangos tueddiadau incwm aelwydydd ar gyfer gwledydd y G7, wedi'u mynegi mewn cymhariaeth ag incwm yn y DU.

Siart 10: Incwm aelwydydd y pen, y DU=100



Ffynhonnell: OECD¹⁴

Noder: Mae'r siart yn dangos incwm gwario cymharol aelwydydd, gan gynnwys trosglwyddiadau cymdeithasol a ddarperir mewn ffyrdd eraill (fel gwasanaethau iechyd yn y DU), y pen ar y prisiau cyfredol a chydraddoldeb pŵer prynu.

Mae twf araf yn y DU wedi golygu bod safonau byw wedi disgyn islaw'r rhai mewn nifer o wledydd cymharol. Mae data'r OECD yn y siart yn dangos bod incwm gwario aelwydydd y pen

yn y DU yn 2010 90 y cant o'r lefel yn yr Almaen a 95 y cant o'r lefel yn Ffrainc. Erbyn 2021, roedd y ffigurau hyn wedi disgyn i 81 y cant a 91 y cant yn y drefn honno.

13 Roedd cymhariaeth ddiweddaraf yr ONS o safonau byw yn y DU ar sail AIC ar gyfer y flwyddyn 2020: Defnydd unigol gwirioneddol y pen yn y DU – y Swyddfa Ystadegau Gwladol


14 Cyfrifon aelwydydd – Incwm gwario aelwydydd – Data'r OECD

Tlodi

Yn ogystal â thueddiadau incwm cyfartalog, mae tueddiadau dosbarthu incwm yn rhan ganolog o asesu'r newidiadau mewn lefelau llesiant materol.

Mae Siart 11 yn dangos tueddiadau tlodi cymharol¹⁵ (ar ôl caniatáu ar gyfer costau tai) yng Nghymru a'r DU. Yn anffodus, o ganlyniad i broblemau casglu data yn sgil y pandemig, mae'r data cyhoeddus diweddaraf ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2017–18 a 2019–20.

Siart 11: Tlodi cymharol Cymru a'r DU, ar ôl costau tai (% o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nid yw'r siart yn dangos newidiadau cyson mewn tueddiadau cyfraddau tlodi yng Nghymru dros y degawd diwethaf (er bod rhai arwyddion o gynnydd diweddar mewn tlodi plant), yn dilyn degawd lle bu gostyngiad mewn tlodi.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos cyfraddau tlodi sydd ar hyn o bryd yn uwch ar gyfer plant, ac yn is ar gyfer pensiynwyr, o'i gymharu ag oedolion o oedran gweithio. Mae hefyd yn dangos bod cyfraddau tlodi yng Nghymru yn eithaf agos at gyfartaledd y DU ar y cyfan.

Mae'r cyfraddau tlodi uchaf yn y DU yn Llundain yn gyffredinol ac mae cyfraddau uwch mewn nifer o ranbarthau eraill y DU o'u cymharu â Chymru, yn dibynnu ar y grŵp oedran dan sylw.

Mae rhagolygon gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y Resolution Foundation ac eraill yn awgrymu bod newidiadau Llywodraeth y DU i'r system les yn debygol o arwain at lefelau tlodi cynyddol dros y blynyddoedd nesaf.


¹⁵ Mae tlodi cymharol yn cael ei ddiffinio fel incwm o dan 60 y cant o incwm aelwyd ganolrifol yn y DU. Felly byddai tlodi'n cynyddu pe bai incwm aelwydydd yn rhan isaf y dosbarthiad yn cynyddu ond roedd y cynnydd yn llai na'r hyn a geir gan yr aelwyd ganolrifol. Gallai tlodi ostwng hyd yn oed pe bai incwm yn gostwng yn rhan isaf y dosbarthiad, ar yr amod bod y gostyngiad hwn yn llai na'r hyn a geir gan yr aelwyd ganolrifol.

Tueddiadau GDP/GVA

Er gwaethaf eu cyfyngiadau o ran mesur safonau byw a llesiant i raddau mwy eto, mae GDP a GVA¹⁶ yn dal yn bwysig fel dangosyddion allweddol o gryfder sylfaenol economi Cymru, ac felly'r sylfaen drethu. Prif sbardun GDP/GVA dros y tymor hir yw twf mewn cynhyrchiant ac

mae hyn yn ei dro yn cefnogi cyflogau uwch, refeniw trethi uwch a safonau byw uwch yn gyffredinol. Mae perfformiad cynhyrchiant yng Nghymru yn cael ei drafod ymhellach isod. Mae perfformiad cymharol Cymru o ran GVA y pen o'i gymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU i'w weld yn Siart 12.

Siart 12: GVA y pen, y DU=100



Ffynhonnell: ONS

Mae'r data GVA diweddaraf ar gyfer 2020, pan oedd GVA y pen yng Nghymru yn 72.7 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd – yr ail isaf ymysg holl wledydd a rhanbarthau'r DU.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae GVA y pen yng Nghymru wedi codi'n uwch na'r ffigur yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, sydd wedi gwrthdroi'r sefyllfa flaenorol, oherwydd Cymru oedd â'r GVA isaf y pen o holl wledydd a rhanbarthau'r DU am flynyddoedd lawer.

Mae allgymudo net (sydd ddim yn cyfrannu at GDP Cymru ond yn cyfrannu at incwm yng Nghymru) yn effeithio'n negyddol ar berfformiad Cymru o ran GVA y pen, fel y mae strwythur

oedran y boblogaeth. Mae cyfran gymharol uchel o bobl hŷn sy'n llai tebygol o fod mewn gwaith.

Mae perfformiad Llundain o ran GVA yn allanolyn clir, gan adlewyrchu'n rhannol effaith mewngymudo, sy'n ychwanegu at GVA Llundain ond nid at ei phoblogaeth. Mae Llundain wedi gwella ei sefyllfa gymharol dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ac o ganlyniad rhifyddol, mae sefyllfa gymharol y rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill y DU wedi gwaethygu.

Fodd bynnag, nid yw perfformiad Cymru o ran GVA y pen o'i gymharu â'r DU yn dangos llawer o dueddiad yn y blynyddoedd diwethaf, er ei fod yn dal ychydig yn is nag yr oedd yn y cyfnod hyd at argyfwng ariannol 2008.

¹⁶ Mae GDP yn wahanol i GVA dim ond drwy gynnwys rhai trethi a chymorthdaliadau. Mae lefelau perfformiad cymharol a thueddiadau Cymru o ran GDP a GVA yn debyg iawn, a gellir ystyried bod y cysyniadau'n gyfnewidiadwy at y dibenion presennol.

Amrywiad gofodol mewn incwm a safonau byw

Mae lefelau incwm a safonau byw yn amrywio ar draws Cymru wrth reswm. Fel y trafodwyd uchod, mae'r gwahaniaeth mewn incwm rhwng pobl ac aelwydydd yn fwy o lawer na'r gwahaniaeth cyfartalog ar draws ardaloedd. Hefyd, fel y dangoswyd yn adroddiad y llynedd ac yn groes i rai tybiaethau, ar y rhan fwyaf o ddangosyddion mae'r amrywiad gofodol mewn canlyniadau economaidd ar draws Cymru wedi tueddu i leihau yn y blynyddoedd diwethaf, yn hytrach na'r gwrthwyneb.


Mae angen cymryd gofal wrth ddehongli GDP/GVA y pen ar lefel leol, oherwydd mae patrymau cymudo'n dylanwadu'n helaeth ar y ffigurau ac felly efallai nad ydynt yn adlewyrchu safonau byw lleol. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn rhannau mwy gwledig Cymru,

mae'r GVA y pen yn llai na'r cyfartaledd ond mae'r lefelau incwm yn fwy na'r cyfartaledd.

Er bod ardaloedd awdurdodau lleol wedi cydgyfeirio, os unrhyw beth, o ran incwm y pen a chyfraddau cyflogaeth dros amser, nid yw'r dangosyddion hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cryfder cymharol economïau lleol. Gall economïau lleol dyfu'n gyflymach neu'n arafach heb i hyn, o reidrwydd, olygu ei fod yn effeithio ar y preswlydd cyffredin, oherwydd gellir adlewyrchu'r twf mewn newidiadau o ran cymudo a/neu fudo.

Dangosir twf economaidd gwahaniaethol ardaloedd awdurdodau lleol Cymru yn y data yn Siart 13, sy'n dangos newidiadau yn nifer y swyddi ym mhob ardal. Nid yw'r data ar gyfer y cyfnod ar ôl 2019 wedi cael ei gynnwys oherwydd mae'r pandemig wedi effeithio arno mewn ffyrdd a allai guddio tueddiadau sylfaenol.

Siart 13: Newid mewn cyfanswm swyddi, 2002–04 i 2017–19 (%)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Dangosir ardaloedd awdurdodau lleol gydag elfen wledig fawr yn llwyd

Mae Siart 13 yn dangos, er bod y twf mwyaf mewn swyddi wedi bod yng Nghaerdydd, nid oes patrwm daearyddol clir ar draws Cymru.


Heriau a chyfleoedd tymor hwy

Cyd-destun y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cryn bwyslais ar yr angen i wella perfformiad twf sylfaenol economi'r DU, gan roi llai o flaenoriaeth i ddsbarthiad incwm.

Fodd bynnag, mae cymariaethau rhyngwladol yn dangos bod modd i'r DU fod yn fwy cyfartal ac yn fwy cefnog. Gweler Siart 14.

Siart 14: Incwm cyfartalog ac anghydraddoldeb yn ôl gwlad, 2019



Ffynhonnell: OECD

Mae'r siart yn dangos mai dim ond dwy o brif wledydd yr OECD, Unol Daleithiau America a Mecsico, sy'n dosbarthu incwm yn fwy anghyfartal na'r DU. Er bod gan Unol Daleithiau America lefel uwch o incwm cyfartalog na'r DU, mae nifer o wledydd datblygedig eraill wedi llwyddo i dyfu mwy na'r DU, gan arwain at lefel uwch o incwm cyfartalog, ac maen nhw'n fwy cyfartal.

Mae dadansoddiad yr OECD yn awgrymu mai dyma'r prif ffactorau ym mherfformiad gwael y DU o ran anghydraddoldeb incwm:

- mae incwm y farchnad – incwm cyn trethi a budd-daliadau – yn anghyfartal iawn
- mae lefel ailddosbarthu arian yn y DU yn gymharol isel¹⁷.

Er hynny, ac fel y nodwyd yn flaenorol, ailddosbarthu o dan system gyllidol y DU yw'r prif reswm pam mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn llai o lawer wrth gymharu ar sail incwm aelwydydd nag wrth gymharu ar sail GDP/GVA y pen. Mae'r ailddosbarthiad wedi'i adlewyrchu ym malans cyllidol negatif mawr Cymru (gweler isod).

Felly, mae polisi Llywodraeth y DU o ran ailddosbarthu incwm yn ffactor hollbwysig sy'n dylanwadu ar safonau byw Cymru.

Marchnad lafur Cymru dros y tymor hwy

Er bod y data diweddaraf wedi dangos rhai arwyddion o wendid, mae'r tueddiadau cyflogaeth tymor hwy yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r bwlch mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU, sy'n cael ei sbarduno gan anweithgarwch i raddau mwy na diweithdra, wedi lleihau'n sylweddol ers datganoli.

Yn yr 1990au, roedd y bwlch yn tua pump i chwe phwynt canran fel arfer. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r bwlch wedi bod yn agosach i ddau y cant ar y cyfan, a diweithdra yng Nghymru yn debyg i'r DU am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd diwethaf, ac yn is na'r DU weithiau.

Wrth gwrs, yn yr un modd â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yn dal yn isel ymysg grwpiau sydd dan anfantais, yn enwedig y rhai â lefelau cymwysterau isel, pobl anabl, pobl â salwch hirdymor, a rhai grwpiau lleiafrifol.

Y gobaith yw mai canlyniad dros dro yr amgylchiadau economaidd diweddar yw'r gwendid diweddar yn y farchnad lafur, ac yn benodol y cynnydd mewn anweithgarwch, yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae effeithiau niweidiol tymor hwy ymadael â'r UE a nodwyd gan yr OBR yn debygol o gael eu teimlo yng Nghymru yn enwedig, o ystyried ei dibyniaeth uwch na'r cyfartaledd ar weithgynhyrchu a'i chysylltiad â marchnadoedd yr UE.

Ar ben hynny, mae dadansoddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid¹⁸ yn dangos, heb fawr o syndod, mai'r ardaloedd mwyaf dibynol ar weithgynhyrchu sy'n wynebu'r risg fwyaf yng Nghymru.

Mae pryderon hefyd ynghylch canlyniadau pobl ifanc yn y farchnad lafur yn y dyfodol yn sgil y tarfu ar eu haddysg yn ystod y pandemig. Oherwydd eu natur, gall y creithiau posibl hyn gymryd amser hir i ymddangos mewn cyflogaeth ac incwm is. Y risg yw y bydd hyn yn arwain at gynyddu anghydraddoldebau ymhellach dros y tymor hwy.

Mae'r pandemig wedi cyflymu'r tueddiad at weithgarwch economaidd "o bell", yn enwedig gweithio o bell. Trafodir hyn ymhellach isod.

17 Gweler, er enghraifft: [Income redistribution | Government at a Glance 2021 | OECD iLibrary \(oecd-ilibrary.org\)](#)

18 [Brexit and labour market inequalities: potential spatial and occupational impacts – Institute For Fiscal Studies – IFS](#)

Cynhyrchiant yng Nghymru

Cynhyrchiant – faint o allbwn a gynhyrchir am bob awr a weithir – yw prif sbardun safonau byw yn y tymor hir. Dim ond os ydynt yn deillio o well cynhyrchiant y gellir cynnal cynnydd mewn cyflogau real.


Yn eu tro, mae gwelliannau mewn cynhyrchiant yn cael eu sbarduno'n bennaf gan arloesedd. Diffiniad eang hyn yw datblygu nwyddau a gwasanaethau newydd neu well a chynyddu effeithlonrwydd wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau¹⁹. Mewn llawer o ardaloedd, cyflymder ac effeithiolrwydd mabwysiadu a defnyddio arloesedd a ddatblygwyd rhywle arall yw'r ffactor hollbwysig, yn hytrach na'r broses o ddyfeisio.

Mewn egwyddor, mae cynyddu cynhyrchiant yn caniatáu safonau byw uwch heb unrhyw gynnydd yn y defnydd o fewnbwn neu lygredd, neu'r defnydd o adnoddau naturiol. Yn ymarferol, bydd hyd a lled llygredd a'r defnydd o adnoddau naturiol yn dibynnu ar y polisiau a roddir ar waith i leihau effeithiau o'r fath.

Mae cynhyrchiant hefyd yn un o'r prif bethau sy'n ysgogi maint y sylfaen drethu ac, o ganlyniad, lefel yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Cyn cyfnod o amgylch argyfwng ariannol 2008, cynyddodd cynhyrchiant ledled y DU, gan gynnwys Cymru, ychydig dros ddau y cant bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ers hynny, mae cyfradd y twf mewn cynhyrchiant wedi gostwng, gyda chyfartaledd o lai nag un y cant y flwyddyn – gweler Siart 15.

Siart 15: Cynhyrchiant llafur (allbwn fesul awr a weithiwyd, 2019=100)



Ffynhonnell: ONS a Llywodraeth Cymru

19 Mae adolygiad o'r ffactorau sy'n sbarduno cynhyrchiant ac arloesedd yng nghyd-destun y DU yma [LSEGC-2017-report.pdf](#), [Stagnation nation – The Inquiry \(resolutionfoundation.org\)](#), a [Productivity-in-the-UK-Evidence-Review.pdf \(niesr.ac.uk\)](#)

Roedd cyfradd y cynnydd mewn cynhyrchiant cyn cyfnod o amgylch yr argyfwng ariannol wedi cefnogi dyblu incwm real dros y 40 mlynedd o ganol yr 1970au ymlaen. Pe bai'r gyfradd honno o dwf mewn cynhyrchiant wedi parhau, gallai fod wedi cynhyrchu incwm real tua 30 y cant yn uwch na'r lefelau ar hyn o bryd a darparu'r adnoddau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus gwell ac ehangach.

Dim ond dealltwriaeth rannol sydd o'r rhesymau dros y gyfradd gymharol wael o dwf mewn cynhyrchiant yn y DU (gan gynnwys Cymru) ers tua 2008. Mae'n nodwedd y mae llawer o wledydd datblygedig eraill wedi'i rhannu, er bod hynny i raddau llai yn gyffredinol na'r DU.

Un esboniad posibl am y profiad cyffredin ar draws gwledydd yw y gallai'r gyfradd arloesi fod wedi arafu. Posiblwydd arall, mwy gobeithiol, yw bod amrywiaeth o dechnolegau newydd yn y broses o gael eu mabwysiadu, ond gyda "chosb" sy'n adlewyrchu costau trosiannol a gwrthdaro, ac felly rhywbeth dros dro yw hyn.


Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae perfformiad cynhyrchiant yn y DU wedi bod yn arbennig o

wael dros y blynyddoedd diwethaf. Un ffactor a allai fod wedi chwarae rôl yw'r lefel isel o fuddsoddiad busnes yn y DU. Gallai'r broblem hirdymor hon fod wedi gwaethygu dros y degawd diwethaf, yn gyntaf oherwydd presenoldeb sector ariannol mawr sy'n dal yn dioddef yn sgil yr argyfwng ariannol, yna drwy Lywodraeth y DU yn gosod mesurau "cyni" llym, ac yn olaf oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â refferendwm yr UE a phontio i berthynas fasnachu newydd gyda'r UE.

Tan yn ddiweddar, roedd lefel gymharol isel o ymchwil a datblygu yn y DU wedi cael ei nodi fel esboniad posibl o berfformiad gwael y DU o ran cynhyrchiant. Fodd bynnag, mae'r ONS wedi gwneud diwygiadau mawr iawn ar i fyny i'w amcangyfrifon o wariant ymchwil a datblygu, i'r fath raddau ei bod hi'n ymddangos bellach bod gan y DU lefel gwariant sy'n agos i gyfartaledd yr OECD.

Mae lefelau cynhyrchiant yng Nghymru yn gymharol isel, hyd yn oed yng nghyd-destun y DU: ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, dim ond yng Ngogledd Iwerddon y mae cynhyrchiant llafur fesul awr yn is (gweler Siart 16).

Siart 16: Cynhyrchiant llafur: GVA fesul awr a weithir (y DU=100)



Yn groes i berfformiad gweddol dda Cymru o ran cyflogaeth, nid yw'r bwlch mewn cynhyrchiant llafur rhwng Cymru a'r DU wedi newid rhyw lawer ers datganoli. Fodd bynnag, roedd y bwlch wedi ehangu yn y blynyddoedd cyn tua 2008, cyn lleihau wedi hynny. Mae'r cynnydd yn ystod y blynyddoedd diweddaraf lle mae data ar gael wedi bod yn eithaf calonogol.

Mae llawer o'r ffactorau sy'n egluro perfformiad cymharol wan Cymru o ran cynhyrchiant llafur yn cael eu deall yn weddol dda ac maen nhw wedi cael eu trafod mewn adroddiadau blaenorol.

Yn gyntaf, nid yw'r cymysgedd o ddiwydiannau yng Nghymru yn esbonio'r lefelau cynhyrchiant llafur isel yng Nghymru. Ar ben hynny, mae cynhyrchiant llafur mewn gweithgynhyrchu, sy'n gyfrifol am gyfran fwy o'r economi yng Nghymru na gweddill y DU, yn cymharu'n eithaf da. Felly, mae'r diffyg yn bodoli'n bennaf yn y sector gwasanaethau (sy'n fwy o lawer).

Mae ymchwil yn dangos, yn gyffredinol, mai sgiliau a chymwysterau yw'r ffactorau pwysicaf o bell ffordd o ran sbarduno cynhyrchiant. Mae gan weithlu Cymru lefelau cymwysterau sy'n is na'r rhai ar gyfer de Lloegr a'r Alban, er eu bod yn debyg i rannau o Loegr (neu ychydig yn uwch hyd yn oed).

Mae'n debygol bod Cymru hefyd wedi wynebu rhywfaint o gosb cynhyrchiant yn sgil ei phatrwm aneddiadau gwasgaredig, ac yn enwedig oherwydd nad oes cytref fawr a deinamig iawn (fel Manceinion). Gall cytrefi o'r fath gefnogi swyddi uchel eu cynhyrchiant a chyflogau, yn enwedig yn y sector gwasanaethau y gellir eu masnachu.

Mae ymchwil gan yr OECD yn dangos bod sector gwasanaethau y gellir eu masnachu llwyddiannus yn ei dro yn darparu sylfaen gref i gefnogi busnesau sy'n darparu gwasanaethau a ddefnyddir yn lleol.

Mae rhannau o Gymru hefyd yn cael eu llesteirio gan berifferoldeb cymharol a chysylltedd cyfyngedig yn sgil hynny.


Efallai fod problemau hefyd yn codi o ddiffyg cwmnïau mawr cynhenid; o sgiliau rheoli gwan; ac, efallai, o gyfyngiadau ar fynediad at gyllid.

Dim ond mesur rhannol o gynhyrchiant yw cynhyrchiant llafur gan nad yw'n ystyried lefel y cyfalaf a ddefnyddir, ac felly mae'n gallu bod yn ddangosydd camarweiniol o'r effeithlonrwydd cymharol wrth ddefnyddio mewnbynau. Ar y llaw arall, mae cynhyrchiant pob ffactor (TFP) yn asesu cynhyrchiant drwy ystyried pob mewnbyn. Fodd bynnag, mae mesur TFP yn heriol a dim ond yn ddiweddar y mae amcangyfrifon swyddogol wedi bod ar gael ar lefel is na'r DU.

Ym mis Awst 2022, roedd yr ONS wedi rhyddhau ystadegau arbrofol sy'n rhoi sylw i gynhyrchiant llafur ac i gynhyrchiant pob ffactor²⁰. Mae'r ONS hefyd wedi gwneud dadansoddiad ystadegol i archwilio i ba raddau mae amrywiol ffactorau'n esbonio'r gwahaniaethau mewn cynhyrchiant ar draws sefydliadau busnes. Y ffactorau hyn yw'r rhai sydd wedi cael eu nodi mewn ymchwil blaenorol fel rhai sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant uwch ac maen nhw'n cynnwys bod dan berchnogaeth o dramor, bod yn fasnachwr rhyngwladol, bod wedi eich lleoli yn ne-ddwyrain Lloegr Fwyaf, defnyddio TG yn fwy helaeth, a defnyddio gwasanaethau hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad yn fwy helaeth.

Mae dadansoddiad yr ONS yn cadarnhau bod yr holl ffactorau hyn yn cydberthyn i gynhyrchiant llafur uwch, ond mae'r berthynas â TFP yn wannach yn gyffredinol ac yn absennol mewn rhai achosion.

Hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y ffactorau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant ar lefel Prydain, canfuwyd bod cynhyrchiant llafur a TFP yn is yng Nghymru na mewn gwledydd a rhanbarthau eraill Prydain – a bod y bylchau yn eithaf mawr ac yn debyg ar gyfer cynhyrchiant llafur a TFP. Gweler Siart 17.

Siart 17: Cynhyrchiant Llafur a Chynhyrchiant Pob Ffactor (2003 – 2019), y DU=100

Ffynhonnell: ONS

Mae'r siart yn dangos y canlyniadau cyfartalog o wahanol elfennau yn nadansoddiad yr ONS a dylid eu hystyried yn rhai enghreifftiol, yn hytrach na phendant.

Mae ymchwil academaidd diweddar²¹ wedi cadarnhau'r canfyddiad o berfformiad cymharol wael Cymru o ran TFP a chadarnhau canfyddiad yr ONS bod bwllch gweddilliol sylweddol yn dal yn bodoli hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y ffactorau ar lefel safleoedd y mae ymchwil blaenorol yn dangos eu bod yn dylanwadu ar gynhyrchiant (gan gynnwys unwaith eto maint ac oedran safleoedd, strwythur perchnogaeth ac ymgysylltiad mewn masnach ryngwladol). Gallai hyn awgrymu bod y ffactorau mwy "strwythurol", fel cydgrynhoad, hygyrchedd a lefelau sgiliau o bosibl yn bwysig ar gyfer esbonio'r bwllch cynhyrchiant yng Nghymru.

Gweithio o bell

Fel y trafodwyd yn adroddiad y llynedd, mae'r pandemig wedi cyflymu'r tueddiad tuag at weithgarwch economaidd "o bell", yn enwedig

gweithio o bell, gyda llawer o gyflogwyr yn dweud eu bod yn bwriadu symud yn barhaol i fodel gweithio hybrid. Nid yw graddfa'r newid parhaol yn glir ar hyn o bryd, ond gallai'r effeithiau fod yn sylweddol.

Gallai cynnydd mewn gweithio o bell greu cyfleoedd i bobl â sgiliau gwerthfawr nad oeddent mewn gwaith cyn y pandemig, a hynny am resymau fel anabledd neu bellter daearyddol o bosibl. Gallai helpu i ddenu pobl i ardaloedd sydd wedi'i chael hi'n anodd creu swyddi, a'u cadw yno.

Gallai cynnydd mewn gweithio o bell greu risg o gynyddu anghydraddoldebau hefyd. Ar un llaw, gallai pobl ar gyflogau is mewn gwasanaethau a ddefnyddir yn lleol golli gwaith, ac ar y llaw arall gallai gwelliannau mewn llesiant pobl sy'n gweithio o bell gronni i bobl sy'n dueddol o fod mewn swyddi sy'n talu'n well.

Mae ymchwil newydd yn dangos bod newid ar waith, gyda rhywfaint o weithgarwch economaidd a swyddi mewn sectorau sy'n darparu gwasanaethau i gyflogwyr yn lleihau mewn ardaloedd trefol dwys, ac yn cynyddu mewn rhai ardaloedd maestrefol²².

21 The geographical dimension of productivity in Great Britain, 2011–18: the sources of the London prod (tandfonline.com)

22 Remote working and the new geography of local service spending | CEPR

Nid yw'r goblygiadau o ran y galw am dai, eiddo masnachol (gan gynnwys swyddfeydd) a defnyddio trafndiaeth yn glir eto, ond mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod rhai effeithiau negyddol wedi bod ar werth eiddo swyddfa yn barod²³.

Demograffeg Cymru

Mae gan faint a strwythur poblogaeth Cymru oblygiadau economaidd a chyllidol pwysig.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod cysylltiad rhwng poblogaeth sy'n heneiddio a thwf arafach mewn cynhyrchiant, ond nid yw'n profi hyn i'r carn. Bydd cyfran uwch o bobl hŷn yn rhoi mwy o faich ar rai gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynyddu eu costau. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio ar y sylfaen drethu hefyd. Bydd yr effeithiau'n dibynnu ar sut mae cyfranogiad yn y farchnad lafur a lefelau incwm yn amrywio yn ôl oedran.

Yng Nghymru, poblogaeth sy'n pennu'r dyraniad blynyddol o gyllid ychwanegol i grant bloc Llywodraeth Cymru o dan fformiwla Barnett. Bydd twf cymharol is ym mhoblogaeth Cymru yn arwain at lefel is o adnoddau ychwanegol. Ar y llaw arall, bydd twf is mewn poblogaeth yn arwain at lai o bwysau ar rai gwasanaethau

cyhoeddus. Hefyd, oherwydd bod "sylfaen" y grant bloc yn cael ei throsglwyddo o'r flwyddyn flaenorol, po leiaf yw'r boblogaeth y mwyaf yw lefel y gwario y pen. Mae effaith y boblogaeth ar gyllid cymharol yn dueddol o wrthbwyso effaith gwasgfa Barnett. Y rheswm am effaith gwasgfa Barnett yw bod cyfradd y twf a gynhyrchir gan fformiwla Barnett yn is nag y mae ar gyfer gwariant cymharol yn Lloegr.


Ar ben hynny, bydd maint poblogaeth Cymru yn dylanwadu ar lefel y refeniw a gynhyrchir gan drethi datganoledig Cymru.

Yn fwy eang, gallai lleihad yn niferoedd a/neu gyfran grwpiau oedran iau effeithio ar hyfywedd, a hyd yn oed hyfywedd economaidd o bosibl, ardaloedd yr effeithir arnynt yn benodol, gyda'r potensial am ddirywiad os bydd lleoedd yn cael eu hystyried yn rhai annymunol fel lleoliadau preswyl.

Mae'r data poblogaeth sydd newydd ei ryddhau o Gyfrifiad 2021 yn taflu goleuni ychwanegol ar dueddiadau a rhagolygon diweddar demograffeg Cymru.

Mae'r data hwn yn dangos, dros y deng mlynedd ddiwethaf, bod twf poblogaeth yng Nghymru wedi bod yn llai na mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Gweler Siart 18.

Siart 18: Newid mewn poblogaeth 2011 i 2021, %



Ffynhonnell: Y Cyfrifiad


Mae'r Cyfrifiad wedi cadarnhau bod gan Gymru gyfran uwch o'r boblogaeth dros 65 oed nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, ac eithrio De-orllewin Lloegr.

Yng Nghymru, yn debyg i wledydd a rhanbarthau eraill y DU, mae cyfran y boblogaeth sydd dros 65 oed wedi cynyddu ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011.

Dros yr un cyfnod, mae cyfran y boblogaeth sydd rhwng 16 a 64 oed wedi gostwng yng Nghymru, fel y mae ar draws y DU.

Yn debyg i nifer o wledydd datblygedig eraill, mae'r gyfradd ffrwythlondeb Cymru wedi bod ymhell islaw'r gyfradd gyfnewid am nifer o flynyddoedd – a dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod islaw gyfradd Lloegr. Gweler Siart 19.

Siart 19: Cyfradd ffrwythlondeb




Ffynhonnell: ONS

Dros y tymor hir, mae cynnydd mawr wedi bod mewn disgwyliad oes yng Nghymru, ond mae'r gyfradd gwella wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf.


Gwelir yr un patrwm ar draws gweddill y DU ac yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill, ond mae'n bosibl ei fod wedi sefydlogi i raddau mwy yn y DU yn ddiweddar.

Mae maint cyffredinol y boblogaeth yng Nghymru yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo. Yn ddiweddar, mae nifer y genedigaethau yng Nghymru wedi bod yn is na nifer y marwolaethau, ac efallai fod tueddiad yn datblygu – gweler Siart 20.

Siart 20: Faint yn fwy o enedigaethau na marwolaethau, Cymru

Ffynhonnell: Amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth yr ONS.
Noder: Rhifau wedi'u talgrynnu.


Hefyd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae mudo net (o rannau eraill o'r DU ac o wledydd eraill) wedi bod yn bositif, gan wrthbwysu'r gostyngiad naturiol yn y boblogaeth ac arwain at gynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth Cymru. Gweler Siart 21.

Siart 21: Mudo net Cymru, cyfartaledd blynyddol, 2015/16-2019/20

Ffynhonnell: Ystadegau mudo'r ONS.
Noder: Rhifau wedi'u talgrynnu.

Dim ond ar gyfer mudo mewnol y mae dadansoddiad o oedran mudwyr ar gael. Mae Siart 22 yn dangos, dros y blynyddoedd diwethaf, bod poblogaeth Cymru wedi cynyddu yn y grwpiau oedran iau a hŷn drwy fudo rhwng Cymru a gweddill y DU.

Siart 22: Mudo mewnol net Cymru yn ôl grŵp oedran



Ffynhonnell: Ystadegau mudo'r ONS

Noder: Rhifau wedi'u talgrynnu.

Mae'r ffigur positif ar gyfer y grŵp oedran 16-24 wedi'i sbarduno gan fewnfudo uchel ar gyfer yr un flwyddyn 2019/20. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd eraill, mae mudo net ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi bod yn ffigur negatif bach.

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn ansicrwydd yn eu hanfod ac yng Nghymru, byddant yn sensitif iawn i dybiaethau ynghylch patrymau mudo yn y dyfodol, sy'n anodd eu rhag-weld. Fodd bynnag, os bydd y cyfraddau ffrwythlondeb yn aros yn debyg i'r lefelau presennol, bydd methu cynnal lefelau mewnfudo yn arwain yn anochel at ostyngiad hirdymor yn y boblogaeth.

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth swyddogol diweddaraf yn seiliedig ar amcanestyniadau 2020. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad wedi cael eu rhyddhau ers hynny, sy'n dangos bod amcanestyniadau 2020 yn sylweddol uwch na'r niferoedd gwirioneddol. Mae'r niferoedd absoliwt a nodwyd yn yr amcanestyniadau felly'n destun rhywfaint o amheuaeth. Fodd bynnag,

mae'r amcanestyniadau'n dal yn ddefnyddiol ar gyfer darparu syniad o'r newid posibl yng nghyfansoddiad y boblogaeth.

Yn gyffredinol, mae'r amcanestyniadau'n dangos, yn ystod y cyfnod hyd at 2040, bydd cyfran gynyddol o grwpiau oedran hŷn, gostyngiad graddol yn y grŵp oedran 16-64, a gostyngiad mwy sydyn yn y grŵp oedran 0-15.


Mae'r tueddiadau hyn yn debyg i'r rhai a ragwelir ar gyfer rhannau eraill o'r DU, ond o sylfaen lle mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na'r rhan fwyaf o'r DU.

Mae cymharu data o'r Cyfrifiad diweddaraf â chanlyniadau'r Cyfrifiad blaenorol yn 2011 yn dangos gwahaniaethu sylweddol yng nghyfradd y newid mewn poblogaeth ar draws Cymru.

Rhwng 2011 a 2021, roedd y boblogaeth wedi gostwng yn y Gogledd-orllewin – yn ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Cheredigion. Roedd wedi gostwng ym Mlaenau Gwent, Caerffili ac Abertawe hefyd. Nid oedd llawer o newid yn y boblogaeth ym Merthyr, Powys na Wrecsam. Roedd y boblogaeth wedi cynyddu mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill ac yn benodol y rhai sy'n "haws eu cyrraedd", gan gynnwys tuag at ben dwyreiniol coridor yr M4 yng Nghymru, ac yng Nghasnewydd yn enwedig.

Mae Siart 23 yn dangos, heb fawr syndod, bod cysylltiad rhwng newid mewn poblogaeth a chyfradd adeiladu anheddau newydd. Er bod cyfeiriad yr achosiad yn aneglur, ac yn mynd y ddwy ffordd fwy na thebyg, mae'r data i ryw raddau yn cefnogi'r safbwynt y gall adeiladu anheddau hybu twf mewn poblogaeth ar ei ben ei hun – pan fydd y gwaith adeiladu hwn yn digwydd mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uchel o leiaf.

Siart 23: Newid mewn poblogaeth a chynnydd yn nifer yr anheddau, 2011 i 2021



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 a chyfrifiadau Llywodraeth Cymru.

Er bod tueddiadau poblogaeth yn y dyfodol yn ansicr yn eu hanfod, fel y nodwyd, mae'n ymddangos yn rhesymol dod i rai casgliadau petrus:

- Mae posibilrwydd go iawn o ostyngiad cyson yn y boblogaeth, yn enwedig ymysg y boblogaeth oedran gweithio a phlant, gyda risg gysylltiedig i ffyniant a'r sylfaen drethu.
- Bydd yr henoed yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r boblogaeth.
- Bydd dibyniaeth gynyddol ar fewnfudo i gynnal y boblogaeth – ond oherwydd y bydd poblogaeth nifer o wledydd eraill yn gostwng hefyd, a'r gwledydd yn dod yn fwy cefnog o bosibl, gallai'r cyfraddau mudo ddisgyn.
- Efallai y bydd y cynnydd mewn gweithgarwch economaidd “o bell” a'r effeithiau cysylltiedig (ee ar brisiau eiddo) yn effeithio ar symudiadau'r boblogaeth yn y DU, ond mewn ffyrdd sy'n anodd eu hasesu ar hyn o bryd.

Mae'n anodd asesu goblygiadau ehangach newidiadau o'r fath hefyd. Un fantais bosibl yw lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â phoblogaeth. Gallai'r goblygiadau eraill gynnwys y canlynol:

- Pwysau cynyddol ar gostau yn y sector cyhoeddus. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn gofal cymdeithasol oherwydd mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod costau iechyd yn fwy cysylltiedig â chyfnod olaf mewn bywyd, yn hytrach nag oedran cronolegol, a bod ffactorau eraill yn effeithio ar gostau iechyd i raddau mwy nag y mae demograffeg. Hefyd, nid yw'n glir y bydd Cymru'n wynebu risgiau cyllidol uwch yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio na rhannau eraill o'r DU. Er bod gan Gymru eisoes gyfran uwch o bobl hŷn yn ei phoblogaeth na'r DU, rhagwelir newidiadau tebyg yn y gyfran wrth i'r boblogaeth heneiddio yn y dyfodol.

- Bydd patrymau sy'n newid yn y galw am nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â heneiddio yn effeithio ar batrymau cyflogaeth. (Gallai hyn effeithio'n benodol ar rai gwasanaethau cyhoeddus, wrth gwrs, ond hefyd ar weithgareddau hamdden a gwasanaethau gofal a ddarperir yn breifat.)
- Bydd y pwysau ar rai agweddau ar y system addysg yn newid ac yn lleihau fwy na thebyg, ond efallai y daw dysgu gydol oes yn fwy a mwy pwysig.
- Mae goblygiadau posibl i'r defnydd o'r Gymraeg yn sgil gostyngiad ym mhoblogaeth ardaloedd mwy gwledig.
- Efallai y bydd y problemau sy'n codi yn sgil newidiadau mewn lefelau poblogaeth yn cronni'n benodol mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol.
- Mae polisiau cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd, darpariaeth gofal plant a pholisiau i weithwyr hŷn oll yn debygol o gael eu blaenoriaethu.


Gallai'r ddibyniaeth gynyddol ar fewnfudo a phwysigrwydd polisiau sy'n helpu i ddenu a chadw mudwyr “priodol” arwain at oblygiadau i bolisi tai, ac i feysydd polisi eraill, gan gynnwys trafndiaeth.

Rhagolygon cyllidol

Rhagolygon cyllidol tymor byr y DU

Mae Siart 24 yn dangos rhagolwg mis Tachwedd 2022 yr OBR ar gyfer lefel fenthyca net y sector cyhoeddus.

Siart 24: Rhagolygon ar gyfer Lefel Fenthyca Net y Sector Cyhoeddus



Ffynhonnell: OBR

Mae'r OBR yn nodi bod rhagolwg cyllidol tymor canolig y DU wedi gwaethygu'n sylweddol ers rhagolwg mis Mawrth o ganlyniad i economi wannach, cyfraddau llog uwch, a chwyddiant uwch. Ar sail y polisi ym mis Mawrth, byddai lefel fenthyca'r llywodraeth wedi bod yn £108 biliwn (3.7 y cant o GDP) yn 2027-28 a byddai dyled sylfaenol wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn. Byddai bron i ddau draean o'r cynnydd yn y diffyg yn 2026-27 wedi bod o ganlyniad i gostau llog uwch ar ddyledion yn sgil cyfraddau llog uwch. Y prif ffactorau eraill fyddai colli derbyniadau yn sgil y sioc ynni a'r cynnydd – wedi'i sbarduno gan chwyddiant – mewn gwariant lles.

Effaith net y mesurau newydd a amlinellwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yw cynyddu benthyca tua £64 biliwn yn 2022-23 a £40 biliwn yn 2023-24, o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth yr OBR, gan leihau'r cwmp mewn allbwn pan fydd yr economi mewn dirwasgiad a diweithdra'n cynyddu. Byddai penderfyniadau polisi, pe baent yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol, wedyn yn lleihau'r benthyca o 2024-25 ymlaen – pan fydd yr economi'n adfer a diweithdra'n gostwng.

O ganlyniad i'r newidiadau i'r rhagolwg a newidiadau polisi gyda'i gilydd, byddai'r diffyg yn codi o 5.7 y cant o GDP yn 2021-22 i 7.1 y cant o GDP yn 2022-23.

O dan gynlluniau Llywodraeth y DU, byddai'r benthycia wedyn yn gostwng yn 2023-24 i 5.5 y cant o GDP, o ganlyniad i godi trethi a lleihau cymorth cyllidol, a gyhoeddwyd yn flaenorol, a byddai'n parhau i ostwng i 2.4 y cant o GDP yn 2027-28. Byddai'r baich treth yn codi o 33.1 y cant o GDP yn 2019-20 i 37.1 y cant o GDP yn 2027-28, 1.0 pwynt canran yn uwch na'r rhagolwg ym mis Mawrth, a'r lefel barhaus uchaf ers yr Ail Ryfel Byd.

Er y cynnydd bach iawn yng nghyllidebau adrannau dros y pum mlynedd nesaf a thoriadau o'u cymharu â'r ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, byddai cyfanswm y gwariant cyhoeddus yn codi hefyd – o 39.3 y cant o GDP yn 2019-20 i 43.4 y cant o GDP yn 2027-28 – 2.9 pwynt canran yn uwch na rhagolwg yr OBR ym mis Mawrth. Mae hyn yn adlewyrchu llog uwch ar ddyledion a gwariant lles yn cynyddu'r gwariant arian, a'r economi lai o ganlyniad i'r sioc ynni.

Byddai benthycia uwch yn cynyddu dyled sylfaenol (ac eithrio Banc Lloegr) yn sydyn, o 84.3 y cant o GDP y llynedd i 97.6 y cant yn 2025-26 – y ffigur uchaf ers 63 o flynyddoedd. Byddai codi trethi, torri gwario a chynnydd mewn twf GDP wedyn yn ddigon iddo ostwng ychydig yn 2026-27 a 2027-28.

Fodd bynnag, mae'r rhagolwg hwn yn tybio y byddai Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn parhau â'r codiadau mewn trethi a'r cynlluniau gwario tyn iawn sydd wedi cael eu "cynllunio" gan y Canghellor ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod nesaf yr adolygiad o wariant.

Ym marn yr OBR, roedd Llywodraeth y DU ar drywydd i fethu ei dau darged cyllidol wedi'u deddfu, sef cydbwyso'r gyllideb gyfredol a sicrhau bod dyled sylfaenol yn gostwng yn 2025-26, o swm mawr. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth y DU dargedau newydd yn eu lle: sicrhau bod benthycia o dan dri y cant o GDP a bod dyled sylfaenol yn gostwng ymhén pum mlynedd. Mae rhagolwg yr OBR yn

dangos y bydd y targedau newydd hyn yn cael eu cyrraedd ar sail cynlluniau Llywodraeth y DU – ond dim ond o drwch blewyn.


Mae'r ffaith fod cyfraddau llog wedi treblu bron ers mis Mawrth yn golygu bod disgwyl i gyfran y referniw a ddefnyddir i dalu dyledion godi o lai na 5 y cant yn 2019-20 i 8.5 y cant yn 2027-28, gan olygu y bydd cyllid cyhoeddus yn fwy agored i niwed yn sgil siociau yn y dyfodol neu newidiadau ym marn y farchnad.

Cymru – rhagolygon cyllidol dros gyfnod y gyllideb

Mae Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn darparu rhywfaint o ddyraniadau ychwanegol bach i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25, ar ben setliad yr adolygiad o wariant. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r sioc chwyddiant sy'n para ers y llynedd, hyd yn oed o ystyried yr ychwanegiadau hynny mae setliad Llywodraeth Cymru dros dair blynedd cyfnod yr adolygiad o wariant yn dal yn werth llai mewn termau real nag oedd wedi'i ddisgwyl ar y pryd.

Caiff y datchwyddydd GDP ei ddefnyddio'n gyffredinol i ystyried chwyddiant wrth ddadansoddi gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r OBR yn cydnabod na fydd o bosibl yn adlewyrchu'n llawn y sioc chwyddiant mae llywodraethau yn y DU yn ei hwynebu. Mae'r datchwyddydd GDP yn fesur ehangach o newidiadau mewn prisiau ond nid yw'n cynnwys newidiadau ym mhrisiau nwyddau sy'n cael eu mewnfario, sy'n cael eu cynnwys yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Felly, mae asesiad amgen wedi'i ddarparu gan y newid yn rhagolwg yr OBR o chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ers y llynedd. Ar y sail bod rhagolygon y datchwyddydd GDP a'r CPI yn darparu ystod, mae setliad Llywodraeth Cymru dros gyfnod presennol yr adolygiad o wariant bellach werth hyd at £3bn yn llai nag oedd y disgwyl y llynedd, a dros £1bn yn llai yn 2023-24 ar ei ben ei hun (Siart 25 isod).

Siart 25: Gwahaniaeth yn setliad Llywodraeth Cymru mewn termau real ers mis Hydref 2021 gan ddefnyddio gwahanol fesurau o chwyddiant (£m, prisiau 2020–21)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ar ôl disgyn tua 8 y cant mewn termau real yn ystod y degawd diwethaf, mae cynnydd diweddar yn golygu bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn 2022-23 tua 3 y cant yn uwch y pen o'i gymharu â 2010–11, ond ei fod yn newid ychydig iawn dros y ddwy flynedd nesaf (Siart 26).

Mae rhagolwg ar gyfer 2025-26 i 2027-28 hefyd wedi'i gynnwys yn Siart 26, gan ddefnyddio'r twf tybiedig yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

cyffredinol ar gyfer adnoddau'r DU o ragolwg mis Tachwedd yr OBR i gynyddu DEL Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhagolygon ar gyfer treth ddatganoledig o Ragolwg Trethi Cymru'r OBR, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn awgrymu y bydd y patrwm o dwf isel yn parhau. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y gwariant o ddydd i ddydd y pen yn cynyddu llai na 0.5 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real tebyg wrth debyg.

Siart 26: Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real y pen (£, prisiau 2021-22²⁴)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

24 Gan eithrio cyllid ffermydd a newidiadau i IFRS16 nad ydynt wedi'u cynnwys mewn blynyddoedd blaenorol.

Rhagolygon cyllidol tymor hirach y DU

Cafodd adolygiad diweddaraf yr OBR o ragolygon hirdymor y DU, a'r Adroddiad Risgiau a Chynaliadwyedd Cyllidol (FRS) cyfunol cyntaf, eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022²⁵. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae'r adroddiad yn adolygu cynaliadwyedd cyllidol y DU dros y tymor hir ac yn ystyried y risgiau cysylltiedig. Mae'r prif amcanestyniadau economaidd a chyllidol yn ymwneud â'r cyfnod o hanner can mlynedd hyd at 2070–71.

Mae'r FRS yn cynnwys trafodaeth fanwl o ddwy risg gyllidol benodol: y cynnydd mewn tensiynau geowleidyddol fel yr adlewyrchir yn ymosodiad Rwsia o Wcráin, ac effaith prisiau ynni uwch. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried goblygiadau newidiadau demograffeg i'r DU.

Prif gasgliad yr FRS yw bod sefyllfa ariannol y DU yn anghynaliadwy dros y tymor hir heb godi trethi'n sylweddol (neu leihau rhwymedigaethau gwario).

Daw'r OBR i'r casgliad fod y pandemig (yn annisgwyl efallai) heb gael llawer o effaith ar y sefyllfa gyllidol tymor canolig (lle mae'r dyled ychydig yn uwch ond y prif falans ychydig yn gryfach), o ganlyniad yn rhannol i'r codiadau treth sylweddol a gyhoeddwyd yn ei sgil.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cafodd effaith y codiadau hynny ei gwrthbwysu'n rhannol gan y gostyngiadau treth a gyhoeddwyd yn natganiad cyllidol mis Medi. Cafodd y rhain wedyn eu gwrthdroi'n rhannol eu hunain yn Natganiad yr Hydref.

Mae disgwyl i'r gyfradd twf sylfaenol barhau i fod yn is o lawer na'r cyfartaledd hanesyddol, ar gyfartaledd o 1.4 y cant dros y tymor hir

(1.5 y cant o dwf sylfaenol mewn cynhyrchiant wedi'i wrthbwysu gan 0.1 y cant o ostyngiad o ganlyniad i leihad yn y boblogaeth oedran gweithio).

Nododd yr OBR fod y pwysau ar gyllid cyhoeddus mewn cysylltiad â demograffeg wedi lleihau rywfaint yn y tymor byr o ganlyniad i gyfradd genedigaethau is a gwelliannau arafach mewn disgwyliad oes, gan leihau gwariant mewn cysylltiad ag oedran fel cyfran o GDP. Fodd bynnag, mae lefelau mudo is yn arwain at rai newidiadau cyllidol negatif, gwrthbwysol.

Yn gyffredinol, dros y tymor hir bydd y pwysau ar wariant yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a cholli trethi moduro presennol mewn economi sy'n datgarboneiddio yn dal yn golygu bod dyled gyhoeddus ar drywydd anghynaliadwy yn y tymor hir, gyda dyled yn codi fel cyfran o GDP.

Mae'r amcanestyniadau gwaelodlin yn dangos balans y gyllideb yn gwaethygu'n raddol dros y tymor hir, o warged o 0.2 y cant o GDP yn 2026–27 i ddiffyg o 11.2 y cant o GDP yn 2071–72. Mae'r cynnydd hwn o 11.4 y cant o GDP yn cyfateb i £287 biliwn yn nhermau heddiw. Dyma'r cyfraniadau mwyaf i'r cynnydd hwn: 6.7 y cant o GDP o wariant iechyd (o ganlyniad i bwysau sy'n gysylltiedig â demograffeg a phwysau arall); 3.0 y cant o GDP o wariant ar bensiwn y wladwriaeth (o ganlyniad i bwysau sy'n gysylltiedig â demograffeg a chost y clo triphlyg); 1.5 y cant o GDP drwy golli referniw trethi (yn enwedig tollau tanwydd ffordd) o ganlyniad i ddatgarboneiddio; ac 1.1 y cant o GDP o wariant ar ofal cymdeithasol i oedolion.

Yn absenoldeb newidiadau polisi gwrthbwysol, yr amcanestyniad gwaelodlin yw cynnydd mewn dyled net o 84 y cant o GDP yn 2026–27 i 100 y cant yn 2052–53, cyn cynnydd cyflym i 267 y cant o GDP erbyn 2071–72.

Byddai dod â dyled yn ôl i 75 y cant o GDP – y lefel yr oedd wedi sefydlogi yng Nghyllideb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2020, cyn y pandemig – yn golygu bod yn rhaid i drethi godi, i wario leihau, neu gyfuniad o'r ddau, sef tynhau ychwanegol gwerth 1.5 y cant o GDP (£37 biliwn y flwyddyn yn nhelerau heddiw) ar ddechrau pob degawd dros y 50 mlynedd nesaf.

Nododd yr OBR fod heriau geowleidyddol ac ynni newydd wedi ychwanegu at yr ystod eang o risgiau sydd eisoes yn bodoli, ac y gallai unrhyw un ohonynt arwain at ragolygon cyllidol mwy negyddol byth. Ymysg y risgiau hyn mae:

- Chwyddiant cynyddol a allai wthio'r economi i mewn i ddirwasgiad.
- Ansicrwydd parhaus ynghylch ein perthynas fasnachu â'r UE yn y dyfodol.
- Ton newydd o achosion COVID.
- Hinsawdd fyd-eang sy'n newid.
- Cyfraddau llog cynyddol.

Gan ystyried brasamcan o'r costau anghymesur sy'n gysylltiedig â siociau cyfnodol anochel yn sgil y rhain neu achosion eraill, gallai dyled fod yn 100 y cant o GDP erbyn 2047–48 a bron i 320 y cant o GDP mewn 50 mlynedd.

Rhagolygon cyllidol tymor hwy Cymru

Mae'r amcanestyniadau tymor hwy yn Siart 27 yn defnyddio'r rhagolwg tymor canolig a ddangosir yn Siart 26 fel man cychwyn. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2027–28 i 2032–33.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant “seiliedig ar alw” yr OBR

- Seiliedig ar amcanestyniadau'r OBR ar gyfer gwariant di-log, di-fudd perthnasol o adroddiad Risgiau a Chynaliadwyedd Cyllidol 2022. Mae gwariant Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid grant bloc yn cynyddu ar tua'r un gyfradd â GDP am weddill y degawd hwn, ac wedyn tua 1 ycant y flwyddyn yn gyflymach na GDP wedi hynny. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau uwch o ganlyniad i ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yng nghostau real darparu iechyd a gofal. Mae'r OBR yn nodi na fyddai gwariant yn y senario hwn yn gynaliadwy o dan y polisiau trethiant presennol.


Senario dau: Mae twf 0.5 y cant o dan GDP am 5 mlynedd, wedyn GDP

- Mae gwariant Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid grant bloc Llywodraeth Cymru yn cynyddu ychydig yn arafach nag economi'r DU tan flynyddoedd cyntaf y 2030au, wedyn ar yr un gyfradd â'r economi. Mae'r senario hwn yn adlewyrchu sefyllfa lle bydd Llywodraeth y DU am gadw lefel dyled y sector cyhoeddus fel cyfran o GDP y tu hwnt i gyfnod y rhagolwg tymor canolig o bosibl, wedi'i ddilyn gan gyfnod o sefydlogrwydd.

Senario tri: Twf un pwynt canran yn llai na GDP

- Gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn cynyddu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU. Mae hyn yn adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau neu log ar ddyledion – yn cynyddu'n gyflymach.

Siart 27: Amcanestyniadau Hirdymor ar gyfer Gwariant Llywodraeth Cymru o Ddydd i Ddydd (cyllideb adnoddau heb gynnwys COVID-19) mewn termau real, o dan dri senario (£m, prisiau 2021–22)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn y senario seiliedig ar alw, mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n gyflymach dros gyfnod estynedig nag ar unrhyw adeg ers y 2000au. Y senario hwn sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol ond, o ystyried casgliad yr OBR fod y lefel hon o gynnydd mewn gwariant yn anghynaliadwy heb godi trethi, mae'n bosibl y caiff ei ystyried yn or-obeithiol.

Mae'r senario canol yn awgrymu y bydd y gyllideb adnoddau yn tyfu ychydig yn gyflymach dros y pum mlynedd nesaf, ac yn y senario isaf mae twf ychydig yn arafach dros y tymor hwy. Er bod y senarios hyn yn fwy tebygol na'r cyntaf efallai, mae'r ddau yn awgrymu y bydd gwariant y pen yn tyfu ar gyfradd sy'n llai na hanner y gyfradd gyfartalog ers dechrau datganoli.

Cynaliadwyedd cyllidol yng Nghymru


Mae diddordeb cynyddol mewn dadansoddi cynaliadwyedd hirdymor fframweithiau cyllidol datganoledig yn y DU. Mae hwn yn ymarfer gwahanol i asesiad yr OBR o gynaliadwyedd cyllidol ar draws y DU yn ei chyfanrwydd. Mae fformiwla Barnett yn golygu bod cyllidebau datganoledig yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch gwariant cyhoeddus yn Lloegr. Felly, mae elfen amodol ynghlwm wrth unrhyw asesiad o gynaliadwyedd cyllid ar gyfer gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Os caiff y gwasanaethau cyfatebol yn Lloegr eu hariannu'n ddigonol, yna i raddau helaeth bydd digonolrwydd cyllid yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar a yw'r galw ar y gwasanaethau hynny'n tyfu ar gyfradd wahanol i'r galw yn Lloegr. Bydd perfformiad cymharol y trethi datganoledig yn cael effaith hefyd.

Nid yw'r adroddiad hwn yn mynd ati i wneud asesiad systematig o'r galw perthynol ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol nac o gapasiti'r trefniadau fframwaith cyllidol presennol i ymdopi â'r galw hwnnw. Fodd bynnag, mae'n edrych ar un elfen i esbonio'r pwynt a wneir uchod.

Mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddol o bobl hŷn fod yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno'r galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na Lloegr – sef rhan o'r rheswm

bod ganddi angen cymharol uwch i wario ar wasanaethau cyhoeddus – ond y twf yn y boblogaeth honno a fydd yn sbarduno newidiadau yn y galw. Mae Siart 28 yn dangos y rhagolwg o'r twf yn y boblogaeth sydd â disgwyliad oes o lai na 10 mlynedd neu lai yn weddill – grŵp sy'n debygol o greu rhywfaint o'r galw uchaf ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r boblogaeth hon dyfu'n gyflym ond ar tua'r un gyfradd yng Nghymru ac yn Lloegr tan ddiwedd y 2020au, a bydd twf ychydig yn gyflymach yn Lloegr wedi hynny.

Siart 28: Rhagolwg o'r boblogaeth â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill (2020=100)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ar sail rhagolygon yr ONS o boblogaeth ar sail 2020

Os caiff anghenion gwasanaeth cyhoeddus y grŵp hwn yn Lloegr eu diwallu'n briodol dros y tymor canolig i hir, mae siawns resymol y bydd gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw o dan drefniadau'r fframweithiau cyllidol cyfredol hefyd. Bydd gwasgfa fformiwla Barnett yn golygu y bydd cynnydd ychydig yn is mewn gwariant yng Nghymru na Lloegr, gan gymryd bod popeth arall yn gyfartal, ond mae mecanwaith yng Nghytundeb Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar yr effaith honno dros y tymor canolig i hir.

Yn amlwg, mae'r cwestiwn a fydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid digonol yn Lloegr yn risg

fawr. Mae'r cynlluniau cyfyngedig iawn ar gyfer gwariant am weddill cyfnod yr adolygiad o wariant a'r rhagdybiaethau ar gyfer y tair blynedd ganlynol, sy'n sail i ragolwg cyllidol diweddaraf yr OBR, ill dau yn awgrymu bod y rhagolygon yn llwm yn y tymor byr i ganolig o leiaf. Fel y nodwyd uchod, mae hefyd yn wir mai'r senario sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r cyllid angenrheidiol yn y tymor hwy yw'r un sydd hefyd yn anghynaliadwy o ystyried y lefelau trethiant presennol, yn ôl yr OBR. Ar ben hyn, mae'n werth nodi'r pwysau cronol ar wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU o ganlyniad i gyllid sy'n llai na'r galw dros tua'r degawd diwethaf.

Wrth gwrs, gall Llywodraeth Cymru newid maint ei hamlen gyllidebol drwy ddefnyddio ysgogiadau trethiant datganoledig hefyd. Mae'r ysgogiadau hyn yn darparu hyblygrwydd gwerthfawr ac fe'u trafodir yn fanylach yn yr adran ganlynol. Fodd bynnag, gallai eu defnyddio i gynhyrchu newidiadau mawr iawn mewn adnoddau mewn perthynas â'r cyllid grant bloc effeithio ar y sylfaen drethu yng Nghymru mewn ffordd a fyddai'n codi rhagor o gwestiynau ynghylch cynaliadwyedd.


Mae'r enghraifft hon yn rhoi cipolwg ar un elfen sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyllidol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd

cyllidol hirdymor yn ddibynnol ar gydbwysedd pob elfen sy'n effeithio ar anghenion gwariant a reffeniw trethi mewn blynyddoedd i ddod.

Reffeniw trethi Cymru

O ganlyniad i ddatganoli trethi, tua 80 y cant o gyllid Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r grant bloc erbyn hyn (gweler Siart 29). Mae cyllid o reffeniw trethi yn ffynhonnell risg yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ac mae'n cysylltu cyllid â pherfformiad trethi datganoledig Cymru o'u cymharu â'r rhai cyfatebol yn y DU.


Siart 29: Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Roedd Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR ym mis Tachwedd yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi'r DU sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Mae rhagolygon reffeniw wedi'u diweddarau ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn Rhagolygon yr OBR ar gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos reffeniw uwch o gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) o'u cymharu â'r rhai yng Nghyllideb derfynol mis Mawrth 2022 (sy'n adlewyrchu rhagolwg yr OBR ym mis Hydref 2021), ond reffeniw is o'r dreth trafodiadau tir (siart 29). Mae'r olaf o'r ddau hyn yn gyson â'r rhagolwg dirywiol ar gyfer y farchnad eiddo dros y blynyddoedd nesaf. Yn eu crynswth, mae reffeniw datganoledig wedi cynyddu ychydig dros flynyddoedd yr adolygiad o wariant.

Siart 30: Rhagolygon trethi datganoledig (£ miliwn)


Ffynhonnell: OBR

Mae rhagolygon yr OBR ar gyfer trethi cyfatebol y DU hefyd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiad i'r grant bloc.

Dangosir y sefyllfa net rhwng y trethi datganoledig a'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc yn Siart 31. Dros y blynnyddoedd sydd dan sylw yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, mae'n dangos yr effaith net yn cynyddu o £174m yn 2023–24 i £221m yn 2024–25. Mae'r effaith yn lleihau ond yn dal yn bositif yn 2025–26, ac yn cynyddu eto dros weddill cyfnod y rhagolwg. Mae'r patrwm wedi'i gymhlethu gan addasiadau cysoni gwirioneddol ac a ragwelir, sydd wedi cael eu cynnwys yn y flwyddyn y maen nhw'n effeithio ar y gyllideb, yn hytrach na'r flwyddyn y maen nhw'n berthnasol iddi.

Mae'r bwlch rhwng reffeniw datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn cael ei ysgogi'n rhannol gan ddewisiadau polisi, er enghraifft mae gan y dreth trafodiadau tir gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol na threth dir y dreth stamp Llywodraeth y DU. Yn ogystal, mae rhewi'r lwfans personol treth incwm yn cael mwy o effaith gyfrannol ar reffeniw yng Nghymru nag mewn manau eraill.

At ddibenion y gyllideb, mae addasiad grant bloc CTIC a rhagolwg reffeniw CTIC ar gyfer 2023–24 nawr yn sefydlog. Bydd addasiad cysoni ar ôl cyhoeddi'r data alldro. Cyhoeddwyd alldro CTIC ar gyfer 2020–21 yr haf hwn. Roedd reffeniw CTIC £62m yn uwch na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc. Roedd y rhagolwg yng nghyllideb 2020-21 yn dangos gwahaniaeth net o £13m. Bydd addasiad cysoni net o +£48m yn cael ei gynnwys yng nghyllideb 2023-24 ac mae wedi'i gynnwys yn Siart 31.

Siart 31: Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc (£ miliwn)

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru a'r OBR


Balans cyllidol

Mae Siart 32 yn dangos y balans cyllidol ar gyfer Cymru a gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr yn 2020-21. Mae balans negatif yn dynodi bod y gwariant yn fwy na'r refeniw. Bydd pandemig COVID-19 a'r ymateb iddo wedi effeithio ar y ffigurau hyn. Mae pob gwlad a phob rhanbarth yn Lloegr wedi cofnodi balans cyllidol negatif. Fodd bynnag, mae'r patrwm cymharol rhwng gwahanol ardaloedd yn dal yn eithaf tebyg i flynyddoedd blaenorol.

Mae gwariant cyhoeddus y pen yn uwch yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Yn gyffredinol, mae lefel y gwariant mewn gwahanol ardaloedd

yn adlewyrchu'r strwythurau oedran cymharol a dangosyddion angen eraill. Mae gwariant y pen yn uwch yn yr Alban ac yn Llundain am resymau eraill.

Mae refeniw y pen yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU ac yn debyg i Ogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gwendid sylfaenol y sylfaen drethu yng Nghymru eto'n adlewyrchu ffactorau demograffig, ond hefyd y nifer cymharol isel o bobl sy'n ennill incwm uchel yng Nghymru, sydd ill dau'n cael eu hadlewyrchu ym mherfformiad cymharol Cymru o ran GDP.

Siart 32: Balans cyllidol y pen (£), 2020–21

Ffynhonnell: ONS

Nodiadau: Refeniw o fewn a nwy Môr y Gogledd a ddyrennir ar sail daearyddiaeth

Mae'r bwch mwy rhwng refeniw a gwariant yng Nghymru, o'u cymharu â chyfartaledd y DU, yn dangos bod llawer iawn yn cael ei drosglwyddo i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU, a'r trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwch a ddangosir rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru, fel y trafodir uchod. Mae'r ddibyniaeth hon ar drosglwyddiadau cyllidol yn amlwg yn risg allweddol i safonau byw Cymru.

Fel y nodwyd uchod, mae newid demograffig yn ychwanegu at y risgiau economaidd a chyllidol tymor hwy sy'n wynebu Cymru.

O dan y trefniadau cyllidol presennol, mae gan Gymru amddiffyniad sylweddol, ond heb fod yn gyflawn, rhag symudiadau yn y boblogaeth sy'n niweidiol yn ôl pob golwg – yn wir, mewn rhai amgylchiadau, gallai symudiadau o'r fath gael effeithiau manteisiol yn y tymor byrrach (gan fod

y grant bloc yn cynnwys sylfaen fawr a fyddai'n cael ei throsglwyddo a'i "rhannu" ar draws poblogaeth a fyddai'n llai nag y byddai fel arall).

Fodd bynnag, o dan drefniadau cyllidol a allai fod yn wahanol yn y dyfodol, gallai gwendid yn y sylfaen drethu sy'n deillio o newid demograffig fod yn fwy o faich o lawer.

Er bod llawer o'r ffactorau sy'n pennu lefelau poblogaeth yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ffactorau sy'n anodd dylanwadu arnynt, mae'r potensial cynyddol ar gyfer gweithgarwch economaidd o bell, gan gynnwys gweithio o bell, ynghyd â'r lefel uchel o amwynder yng Nghymru, yn rhoi cyfle i bolisiau fynd i'r afael â dirywiad cymharol y boblogaeth yng Nghymru. Gallai mesurau sy'n gwneud Cymru'n fwy deniadol fel lleoliad helpu i gadw a denu pobl, gan gynnwys pobl sy'n dychwelyd i'r ardal.